# tafod elái

MEDI 2023

Rhif 380

Pris £1


## Llwyddiant yn Eisteddfod Boduan




Dawns Stepio buddugol Dawnswyr Nantgarw

Roedd Eisteddfod Llŷn ac Eifionydd yn wledd o ddiwylliant a hwyl mewn ardal Gymreig iawn. Teithiodd cynrychiolaeth gref o'r ardal yno i gystadlu ac i hybu Eisteddfod Pontypridd 2024.

Llongyfarchiadau i bawb o'r ardal fu'n cystadlu. Dyma rhai ddaeth i'r brig.

Dawns Stepio i Grŵp: 1af Dawnswyr Nantgarw

Deuawd, Triawd neu Bedwarawd Stepio: 1af Daniel a Morus Jones

Dawns Stepio Unigol i Fechgyn 18 oed a throsodd: 1af Daniel Calan Jones. 3ydd Trystan Gruffydd.

Parti Dawnsio Gwerin dan 25 oed: 3ydd Dawnswyr Nantgarw.

Dawns Stepio Unigol i Fechgyn dan 18 oed: 1af Morus Caradog Jones.

Tlws Coffa Lois Blake: 2il Dawnswyr Nantgarw

Côr Cerdd Dant: 3ydd Côr Tônteg

Cyfansoddi dwy fonolog gyferbyniol. Buddugol: Martin Huws, Ffynnon Taf.

Côr i rai 60 oed a throsodd: 1af Côr Hen Nodiant.

Gwobr Goffa Richard Burton 19 oed a throsodd: 2il Iestyn Gwyn Jones

Côr Adloniant: 1af Côr CF1

Côr Cymysg: 3ydd Côr CF1

## Tlws y Cerddor



Llongyfarchiadau arbennig i Lowri Jones ar ennill Tlws y Cerddor yn yr Eisteddfod. Yn enedigol o Bontypridd, bu'n ddisgybl yn Ysgol Pont Sion Norton ac Ysgol Gyfun Rhydfelen. Astudiodd Cerddoriaeth ym Mhrifysgol Manceinion ac nawr mae'n gweithio yn Adran Addysg y BBC yng Nghaerdydd.

Mae Lowri yn ddyledus ac yn ddiolchgar iawn i Patrick Stephens, Bethan Roberts, Lowri Phillips, Carl Darby ac Eira Lynn Jones.


**£10**

**Mae'n amser tanysgrifio unwaith eto i dderbyn Tafod Elái.**

**Gofynnwn i chi fynd i wefan**
**tafodelai.cymru**
**a thalu drwy'r linc gyda cherdyn debyd neu credyd.**

**Diolch i chi am eich cefnogaeth.**


## Eisteddfod 2024 ym Mhontypridd

Dydd Llun yn Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd cyhoeddodd y Cynghorydd Andrew Morgan, Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, mai tref Pontypridd fydd cartref yr Eisteddfod y flwyddyn nesaf. Gyda Pharc Ynysangharad yng nghanol y dref yn ffocws i fwyafrif y gweithgareddau a'r is-bafiliynau, bydd y Maes hefyd yn cynnwys rhannau o'r dref ei hun, gan greu Eisteddfod drefol, amgen a chyffrous, sy'n cyfuno'r ardal leol gyda'r ŵyl ei hun.

Meddai'r Cyng. Morgan, "Mae Pontypridd yn ardal wych i gynnal canolbwynt yr Eisteddfod, ac mae cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus gwych y dref yn golygu y bydd yr Eisteddfod yn hygyrch i ymwelwyr o Rhondda Cynon Taf ac o Gymru gyfan."

Ychwanegodd Cadeirydd Pwyllgor Gwaith Eisteddfod Genedlaethol Rhondda Cynon Taf, Helen Prosser, "Mae'n braf iawn gallu cyhoeddi mai ym Mhontypridd y cynhelir yr Eisteddfod y flwyddyn nesaf. Mae'n bwysig pwysleisio bod yr Eisteddfod hon yn perthyn i bawb ar draws Rhondda Cynon a Thaf. Aberdâr oedd cartref yr Eisteddfod y tro diwethaf iddi ymweld â'r ardal yn 1956, ac rydyn ni'n edrych ymlaen at ei chroesawu'n ôl i ardal Taf y flwyddyn nesaf, a hynny am y tro cyntaf ers 1893."

Cynhelir Eisteddfod Genedlaethol Rhondda Cynon Taf ym Mharc Ynysangharad ac o amgylch tref Pontypridd o 3-10 Awst 2024.

## Parc Ynysangharad




Ar y 6ed o Awst dathlwyd can mlynedd ers agor Parc Ynysangharad. Mae'r parc yn galon i'r dref ac yn denu pobl o bell ac agos i fwynhau'r cyfleusterau. Cyhoeddwyd llyfr arbennig i nodi'r achlysur.

Hefyd yn ddiweddar agorwyd Canolfan Calon Taf sy'n darparu gweithgareddau cymunedol ac addysgol i'r dref.

# tafod elái


**GOLYGYDD**
**Penri Williams**
**029 20890040**

**CYHOEDDUSRWYDD**
**Colin Williams**
**029 20890979**

Erthyglau a straeon
ar gyfer rhifyn mis Hydref
i gyrraedd erbyn
25 Medi 2023

**Y Golygydd**
Hendre 4 Pantbach
Pentyrch
CF15 9TG
Ffôn: 029 20890040
**e-bost**
pentyrch@tafelai.com

Tafod Elái ar y wê
**http://www.tafodelai.cymru**

*Argraffwyr:*
EVANPRINT
*www.evanprint.co.uk*



CYMRAEG

*Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru*



**Gwasanaeth addurno, peintio a phapuro**

**Andrew Reeves**

**Gwasanaeth lleol ar gyfer eich cartref neu fusnes**

**Ffoniwch**

**Andrew Reeves**
**01443 407442**
**neu**
**07956 024930**

**I gael pris am unrhyw waith addurno**




## Eisteddfod Genedlaethol 2024 Codi Arian a Chodi Hwyl

Gwych yw gweld bwrlwm codi arian a chodi hwyl ar hyd a lled yr ardal erbyn hyn ac roedd nos Iau 27 Gorffennaf yn noson bwysig pan gynhaliwyd y digwyddiadau codi arian cyntaf: cwis yng Nghlwb y Bont a chwis yng Nghlwb Rygbi Aberdâr. Roedd bron 70 yng Nghlwb y Bont a diolch i Aled Thomas am noson wych. Roedd 50 yng Nghlwb Rygbi Aberdâr hefyd. Dechrau da iawn. Diolch yn fawr i bawb sydd wrthi'n trefnu.

Un peth y gall pawb ei wneud i helpu rhwng nawr a mis Tachwedd yw gwerthu tocynnau raffl. Mae'r tocynnau yn ddwy bunt yr un ac mae tair gwobr:
1af: £1,000
2il: Profiad jin i ddau a gwely a brecwast yng Ngwesty'r Vale
3ydd: Hampyr Nadolig

Tynnir y raffl ar Ragfyr 1af. Rhowch wybod os ydych chi eisiau cael tocynnau i'w gwerthu.
Helen Prosser (Cadeirydd Pwyllgor Gwaith Eisteddfod Rhondda Cynon Taf)

## Boreau Coffi

Mae'r Stafell Fyw yn cydlynu cyfres o foreau coffi ledled Cymru ar ddydd Sadwrn y 23ain o Fedi. Rydym yn chwilio am westeion sy'n barod i gynnal digwyddiad o'r fath yn eu cartrefi ar gyfer eu ffrindiau a'u cefnogwyr. Pris y tocynnau yw £5.00 yr un. Mae hon yn ymgyrch gydgysylltiedig ledled Cymru i godi ymwybyddiaeth a chymorth ariannol i'r Stafell Fyw Cysylltwch â Julie os gwelwch yn dda, 07954406765

## Cylch Cadwgan - Rhaglen 2023-2024

*Tabernacl, Efailisaf:* Nos Wener 6 Hydref 2023, 8.00 o'r gloch
Cyril Jones, 'Man Gwyn y Smotyn Du'
Y Ganolfan, Tabernacl, Efailisaf
*Bethlehem, Gwaelod y Garth:* Nos Iau 26 Hydref 2023, 7.30 o'r gloch
Prys Morgan, 'Atgofion o Bethlehem a Salem Gwaelod-y-garth'.
Bethlehem, Gwaelod-y-garth
*Cangen y Garth, Merched y Wawr:* Nos Wener 26 Ionawr 2024, 8.00 o'r gloch
Emlyn Davies, 'Y ddau gochyn!'.
Y Ganolfan, Tabernacl, Efailisaf
*Clwb y Dwrlyn:* Nos Iau, 21 Mawrth 2024, 8 o'r gloch
R. Gwynedd Parry, '"Yn Goron o Wladgarwr": Y Barnwr Gwilym Williams o Feisgyn'.
Clwb Rygbi Pentyrch

## TONYREFAIL

Gohebydd Lleol:
Helen Prosser
prosserh@btinternet.com

**Priodas Aur**
Llongyfarchiadau i Ann a Jeff Owen a ddathlodd eu priodas aur ym mis Gorffennaf. Maen nhw gyda'i gilydd ers cyfarfod yng Ngholeg y Drindod, Caerfyrddin. Bu ychydig nosweithiau yn Aberaeron (trwy Gaerfyrddin!) a mordaith yn rhan o'r dathlu.

**Eisteddfod Genedlaethol 2024**



Digwyddiad cyntaf Tonyrefail a Gilfach Goch fydd cyrri a chwis yn nhŷ bwyta Mouchak nos Fawrth, 19 Medi. Gwerthodd pob tocyn o fewn wythnos. Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

Felly, y digwyddiad nesaf yw Noson Bingo ac Elvis yng Nghlwb y Glowyr, Tonyrefail nos Wener, 29 Medi. Mark Adey fydd ein Elvis ac mae e'n ddynwaredwr Elvis poblogaidd iawn. Dewch yn llu! Cysylltwch â fi os byddwch am gael tocyn.




Cynhelir y cyfarfod pwyllgor nesaf nos Fercher, 23 Awst am 6pm yng Nghlwb y Glowyr. Plîs dewch i'n helpu ni gyda'n digwyddiadau codi arian.

## CLWB Y DWRLYN

# Noson gyda Lloyd Macey

*8yh Nos Iau, 21 Medi*
*Yng Nghlwb Rygbi Pentyrch*

**Mynediad drwy Aelodaeth £15**
**neu £5 i ymwelwyr**
**Manylion oddi wrth:**
**clwbydwrlyn@pentyrch.cymru**

## Camp y Garddwyr




Ganol mis Gorffennaf cyhoeddwyd fod Gardd Gymunedol Capel y Tabernacl, Efail Isaf, ymhlith enillwyr Y Faner Werdd Gymunedol yn y categori a gyflwynir i'r mannau a reolir gan wirfoddolwyr, a hynny ar sail yr ymdrechion amgylcheddol, glendid a diogelwch a'i chyfraniad gwerthfawr i'r gymuned. Dyma oedd ymateb Iwan Rowlands, Cadeirydd Bwrdd Ymddiriedolwyr y Tabernacl, i'r newyddion: 'Braf deall bod gwaith ardderchog Pwyllgor y Meddiannau wedi derbyn cydnabyddiaeth haeddiannol wrth greu llecyn sydd o fendith mawr i'r gymuned yma yn Efail Isaf a'r cyffiniau. Llongyfarchiadau i'r criw ymroddgar am yr holl waith a wnaed ganddynt dros gyfnod o dros dair blynedd yn datblygu'r safle.'

Mae hanes sefydlu'r ardd yn werth ei adrodd. Pan benderfynodd criw bach o aelodau'r Tabernacl gwrdd bob bore Iau i geisio cymhennu ychydig ar yr annibendod o amgylch y capel, y fynwent a'r rhandiroedd, doedd dim cynllun pellgyrhaeddol ganddynt mewn golwg. Ond wrth gael blas rhyfeddol ar y gwaith – a'r gwmnïaeth – yn ystod gaeaf 2018/19, fe dyfodd yn weledigaeth lawer mwy uchelgeisiol, dros baneidiau lawer o de canol bore, i greu ardal werdd fyddai'n hyrwyddo bioamrywiaeth a chynnig gofod lle gallai aelodau a thrigolion pentref Efail Isaf ddianc iddo am noddfa pan oedd angen llonyddwch arnynt. Yn sgil eu brwdfrydedd a'u dyfalbarhad, a thrwy nerth bôn braich a grym JCB bychan, roedd y gwaith o glirio'r gordyfiant anniben yn tynnu tua'r terfyn erbyn gwanwyn 2020 pan laniodd Covid-19. Ond yn groes i'r disgwyl, nid arafu'r datblygiad wnaeth y pandemig ond yn hytrach rhoi hwb pellach i'r fenter. Yn ei sgil ymunodd rhagor o unigolion â'r cynllun, gan gynnwys nifer o drigolion pentref Efail Isaf oedd hefyd yn gweld y budd mawr a ddeilliai o'r weledigaeth. Felly, erbyn ganol haf y llynedd, roedd yr ardd a'r rhandiroedd i'w gweld yn eu gogoniant am y tro cyntaf. Does ryfedd felly bod pawb yn gytûn bod yr ardd yn adnodd gwerthfawr i'r gymuned leol.

Ym marn Lucy Prisk, Cydlynydd Gwobrau'r Faner Werdd yng Nghymru, mae'r safleoedd a wobrwyir 'yn chwarae rôl allweddol yn iechyd meddwl a chorfforol pobl drwy gynnig hafan i gymunedau ddod at ei gilydd, ymlacio a mwynhau natur.' O'u profiad hwythau, byddai'r criw o wirfoddolwyr sydd wedi rhoi cannoedd o oriau o lafur cariad i'r fenter yn y Tabernacl, yn ategu ei geiriau, ond hefyd am ychwanegu pwysigrwydd y lles ysbrydol a gawsant wrth gydweithio mor hapus â'i gilydd. Does ryfedd felly nad oes argoel o gwbl o laesu dwylo, gan fod y criw'n parhau i gwrdd yn wythnosol drwy'r flwyddyn i gynnal y safon uchel maent eisoes wedi ei gyrraedd.



Côr Tôn-teg yn drydydd yn y gystadleuaeth Côr Cerdd Dant



Côr Hen Nodiant yn fuddugol am y 12fed tro yn yr Eisteddfod

## Gwobrwyo Bragdy

Llongyfarchiadau i Bragdy Twt-Lol, Trefforest ar ennill gwobr y Cwrw IPA Gorau ym Mhrydain Fawr yn Ngŵyl Cwrw Prydain 2023 a drefnir gan CAMRA. Roedd Phillip Thomas, y perchennog, wrth ei fodd o ennill y fath glod i gwrw - Dreigiau'r Diafol.



## Pencampwriaeth Jiu-Jitsu y Byd

Llongyfarchiadau i Iwan Anthony, Ysgol Garth Olwg, sydd wedi ennill dau Fedal Aur ym Mhencampwriaeth Brazilian Jiu-Jitsu Ieuenctid y Byd.



# EFAIL ISAF

Gohebydd Lleol:
Loreen Williams

**Llongyfarchiadau**
Estynnwn ein llongyfarchiadau gwresog i aelodau Parti'r Efail sydd wedi dathlu chwarter canrif ers ffurfio'r parti. O dan arweinyddiaeth feistrolgar Menna Thomas maent wedi dod i'r brig lawer gwaith yn yr Eisteddfod genedlaethol a'r Ŵyl Gerdd Dant. Deallaf fod y parti wedi dod ynghyd i ddathlu yn Nhafarn y Carpenters nos Sadwrn, Gorffennaf 22ain ac wedi cael cwmni rhai o'r cyn-aelodau sydd wedi symud i fyw o'r ardal i rannu yn y dathlu. Ymlaen â chi i'r chwarter canrif nesaf!!


1999


2023

**Prif-ddisgyblion Ysgol Garth Olwg**
Llongyfarchiadau mawr i'r efeilliaid Tom a Greta Hall Williams, Heol y Ffynnon ar gael eu dewis yn brif-ddisgyblion Ysgol Gymraeg Garth Olwg am y flwyddyn ysgol nesaf. Llongyfarchiadau hefyd i Mali Williams a fydd yn rhannu'r swydd gyda'r efeilliaid.



**Chwaraewyr Rygbi Dawnus**
Yng Nghinio Blynyddol Clwb Rygbi Llanilltud Faerdref ar Orffennaf 1af cyflwynwyd lluniau i roi ar furiau'r clwb i chwech o chwaraewyr dawnus y clwb. Camp y chwech yma oedd eu bod wedi ennill capiau i Gymru. Llongyfarchiadau i'r brodyr Ioan a Steffan Emanuel, Thomas Edwards, Sam Scott a Hari Wilde ar gael eu dewis i chwarae i dîm Cymru o dan 18 oed, ac i Rhys Barrett ar gael ei ddewis i'r tîm dan 20 oed. Llongyfarchiadau i chi i gyd a daliwch ati.


Ioan Emanuel


Rhys Barratt


Sam Scott


Steffan Emanuel


Thomas Edwards


Harri Wilde

Doedd Harri Wilde ddim yn bresennol am ei fod wedi cael ei alw fyny i sgwad dan ugain Cymru yn Ne Affrig!

**Colli ffrind Annwyl**
Daeth y newyddion trist fore Mawrth, Awst 1af, fod Shelagh Griffiths, gynt o Heol y Ffynnon wedi ein gadael. Roedd Shelagh'n hanu o Aberporth ac fe ddaeth hi a'i diweddar ŵr, Colin, i'r ardal hon pan gafodd hi ei phenodi'n athrawes yn Ysgol Gynradd Gymraeg Garth Olwg ganol chwedegau'r ganrif ddiwethaf. Bu'n athrawes ymroddgar a phoblogaidd iawn yn Ngarth Olwg am flynyddoedd lawer. Hi oedd yn croesawu'r plant i'r Dosbarth Derbyn pob blwyddyn ac mi roedd Shelagh'n amyneddgar iawn, yn annwyl ac fel ail fam i'r plant bach.

Bydd atgofion melys iawn gen i o'r cyfnod yma yng Ngarth Olwg a'r croeso cynnes a'r gwmnïaeth hyfryd dderbyniodd Carey a minnau ar aelwyd Shelagh a Colin.

Bu Shelagh'n aelod ffyddlon yn Y Tabernacl, yn aelod frwd o Ferched y Tabernacl, Merched y Wawr a Chôr yr Einion - a'i gwên siriol bob amser yn cyfarch pawb.

Yn anffodus mi gollodd Shelagh ei hiechyd yn y blynyddoedd olaf yma a bu'n rhaid iddi adael ei chartref yn yr Efail Isaf a symud i Gartref Gofal Heol Don yn yr Eglwys Newydd.

Estynnwn ein cydymdeimlad diffuant i'r plant Karen a Christopher a gweddill y teulu ynghyd â'i ffrindiau yn eu colled.

**Y TABERNACL**
**Cydymdeimlo**
Estynnwn ein cydymdeimlad diffuant i Ann Dixey ar golli ei brawd yn ddiweddar.

**Brysiwch Wella**
Dymunwn wellhad buan i Morfydd Huws sydd wedi derbyn triniaeth yn yr ysbyty yn ystod mis Gorffennaf.

**Llongyfarchiadau**
Llongyfarchiadau gwresog i un o'n haelodau, sef Helen Prosser, Cyfarwyddwr Dysgu ac Addysgu yn y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol sydd wedi derbyn Cymrodoriaeth er Anrhydedd Prifysgol Aberystwyth am ei gwaith diflino dros yr iaith. Mae holl aelodau'r Tabernacl yn falch iawn ohonot Helen.

**Y Faner Werdd**
Wel! Am newyddion gwych!

Mae Gardd Gymunedol Capel y Tabernacl wedi derbyn Y Faner werdd. Cyflwynwyd y faner werdd yn y categori a roddir i'r mannau gwyrdd a reolir gan wirfoddolwyr. Enillwyd y faner ar sail ymdrechion amgylcheddol, glendid a diogelwch a'r cyfraniad gwerthfawr i'r gymuned.

Llongyfarchiadau fil i'r grŵp bach diwyd sydd yn cyfarfod yn gyson i greu adnodd mor werthfawr i'r aelodau ac i'r gymuned. Nid ar chwarae bach mae ennill y fath statws. Diolch o galon i'r grŵp bach ymroddgar am eu gwaith.

**Rhoddion o Sardis**
Yn ddiweddar cyflwynwyd argraffiad pulpud o "Y Beibl Cymraeg Newydd" ynghyd ag argraffiad organ o "Caneuon Ffydd" gan aelodau Sardis Pontypridd i Gapel y Tabernacl. Roedd yn drist iawn i ddeall fod Capel Sardis wedi gorfod cau'r drysau am y tro olaf, ond byddwn fel aelodau'r Tabernacl yn trysori'r ddwy gyfrol a drosglwyddwyd i ni. Bydd croeso cynnes i gyn-aelodau Sardis i ymuno â ni yn Y Tabernacl.

**Apêl y Banc Bwyd**
Derbyniwyd neges yn ddiweddar gan Fanc Bwyd Salem, Ton-teg fod yna brinder dwys o fwyd yn y Banc. Gan fod gwyliau'r ysgol wedi bod ym mis Awst a'r galw mor uchel gwneir apêl yn arbennig am roddion o rawnfwyd brecwast, siwgr, jam a chreision, tuniau o gig, pysgod, llysiau a ffrwythau, cawl, ffa pob a thomatos.

Mae'r capel yn Y Tabernacl ar agor bob bore Sadwrn rhwng 10 a 12 o'r gloch i dderbyn rhoddion neu gellir cyfrannu yn y mannau canlynol - Siop y pentref, Efail Isaf, Co-op Tonteg, a One Stop Garth Olwg ym Mhentre'r Eglwys.

Parhad tudalen 5 >

# PENTYRCH

*Gohebydd Lleol:*
*Marian Wynne*

**Gerddi Agored**
Roedd penwythnos y gerddi agored yn llwyddiant ysgubol unwaith eto eleni a llwyddwyd i godi £2,000 i'w rannu rhwng Ambiwlans Awyr Cymru a phrosiectau lleol. Yn y llun gwelir Barbara a Bill Rodd sy'n agor eu gardd hyfryd bob blwyddyn ac sy'n weithgar iawn gyda chymdeithas Garddwyr y Garth sy'n cwrdd yn fisol yn y pentref.



**Priodas Aur**
Llongyfarchiadau i Shan a Mike Pickard wedi iddynt ddathlu eu priodas aur ar ddiwedd mis Gorffennaf. Gobeithio bydd y gwres wedi gostegu ar ynys Rhodes pan fyddant yn dathlu yno ym mis Medi.

**Diwedd Cyfnod**
Pob dymuniad da i rai o blant y pentref sy'n dechrau yn Ysgol Plasmawr ym mis Medi. Cafwyd parti Hawaiaidd yn Ysgol Creigiau i ddathlu'r achlysur a rhan o'r hwyl i'r bechgyn, ar ôl gwisgo'n addas, oedd cael eu cludo yno mewn 'campervan'. Yn y llun gwelir o'r chwith i'r dde, Ilan Brewster, Wil Hedd Evans, Twm Rogowski, Ieuan Griffiths, Jack Skevington a Hari Williams. Ella Froud-Powell yw'r unig ferch o'r pentref fydd yn mynd i Blasmawr eleni. Dymunwn bob lwc iddynt i gyd ar ddechrau cyfnod cyffrous newydd.



**Gwellhad Buan**
Dymunwn yn dda i Morfydd Huws wrth iddi barhau i wella yn dilyn llawdriniaeth ar ei phenglin ym mis Gorffennaf.

**Genedigaeth**
Llongyfarchiadau gwresog i Cerian ac Andy ar enedigaeth mab bach. Cafodd Iestyn Angus Henderson Hughes groeso arbennig gan Dewi ei Daid balch. Pob dymuniad da i'r teulu bach draw yn Nyfnant ger Abertawe.



**Llongyfarchiadau**
Llongyfarchiadau i Robbie Brewster, Maes y Sarn ar sicrhau gradd MA gyda rhagoriaeth mewn Darlunio (Illustration) o Brifysgol Falmouth. Ewch i weld gwefan ei waith ar robbiebrewster.co.uk

## Efail Isaf (Parhad)

**Barbeciw**
Roedd barbeciw wedi ei drefnu ar gyfer bore Sul, Gorffennaf 23ain ond gyda rhagolygon y tywydd mor wael rhaid oedd ail-leoli a pharatoi'r bwyd a'i fwyta yn y Ganolfan. Daeth nifer dda o aelodau ynghyd ar ôl yr Oedfa i fwynhau'r wledd. Diolch o galon i Eleri Mai am drefnu'r bore.

**Merched y Tabernacl**
Bydd cyfarfod nesaf Merched y Tabernacl ar ddydd Gwener, Medi 8fed yng Nghanolfan y Tabernacl am hanner awr wedi deg y bore. Bydd cyfle i drefnu rhaglen y tymor. Croeso i aelodau newydd a chofiwch ddod a'ch syniadau ar gyfer gweithgareddau'r tymor.

**Trefn yr Oedfaon ar gyfer mis Medi**
Medi 3ydd - Ann ac Emlyn Davies
Medi 10fed - Y Parchedig Aled Edwards
Medi 17eg - Huw M
Med 24ain - Oedfa yng ngofal Lyn West

## Taith i Ferthyr Tudful

Yn ôl ein harfer daeth gweithgareddau Clwb y Dwrlyn i'w terfyn y tymor hwn wrth i ni fynd ar daith yng nghwmni Frank Olding. Eleni aeth â ni i dre hanesyddol Merthyr Tudful lle cawsom ein tywys i sawl mangre arwyddocaol yn hanes y dref.

Safle olion gwaith haearn Cyfarthfa oedd man cychwyn ein siwrnai ac yno bu Frank yn manylu ar y broses o greu haearn gan nodi rhai o'r termau Cymraeg a ddefnyddiai'r gweithwyr yn hollol naturiol megis 'safn', 'coethdy', 'haearn porchell'. Nododd rhai ffeithiau â'n sobrodd sef y damweiniau erchyll a ddigwyddodd i'r plant a'r oedolion o ran llosgiadau, colli aelodau o'u cyrff, ac yn wir colli eu bywydau. Hefyd datgelodd Frank bod Anthony Bacon, perchennog cyntaf gwaith haearn Cyfarthfa, wedi gwneud ei ffortiwn yn y masnach caethwasiaeth, cyn buddsoddi yn y gwaith haearn.

Yna ymlaen i Bont y Cafnau - y bont rheilffordd hynaf yn y byd - a'r un gyntaf i'w chodi o haearn. Roedd y bont hefyd yn cludo dŵr ar hyd gored er mwyn troi'r felin ddŵr a gynhyrchai aer a oedd yn allweddol i'r holl broses o greu haearn.

Aethom heibio i fwthyn yr enwog Joseph Parry (Bachgen bach o Ferthyr erioed erioed), ac ar ben y rhes o fythynnod roedd olion capel wyth ochrog. Yno gwelsom blac i goffáu y nofelydd a'r dramodydd Jack Jones. Un o'i weithiau enwocaf wrth gwrs yw "Off to Philadelphia in the morning."

"Yna lan y tyla i Ddowlish" (Dowlais). Yno codwyd y gwaith haearn mwyaf yn y byd gyda 13 o ffwrneisi (6/7 ffwrnais oedd yng Nghyfarthfa.) Yn eu hanterth roedd yr holl weithfeydd yn cyflogi hyd at 15,000 o bobl a Merthyr, fel y gwyddom, oedd y dref fwyaf yn y byd bryd hynny. Yn Nowlais cawsom hanes y Stablau, y Tŷ Injan anferth a Llyfrgell Guest, yr unig olion gweledol sydd ar ôl o'r Chwyldro Diwydiannol yno. Fe'n hatgoffwyd gan Frank am gampwaith Charlotte Guest yn trosi'r Mabinogi. Fe wnaeth hi hefyd sefydlu a chynnal ysgol i blant y gweithwyr yno.

Yn ystod ein hawr ginio cawsom bicnic yng ngerddi ysblennydd Castell Cyfarthfa cyn ymweld â'r amgueddfa a'r orielau trawiadol tu fewn i'r Castell. Yn yr amgueddfa lawr yn y selar gwelwyd creiriau, lluniau ac arteffactau a adroddai hanes bywyd y cyfnod gan gynnwys hanes Terfysgoedd Merthyr a'r camwedd a ddioddefodd Dic Penderyn. Adlewyrchai'r orielau yn stafelloedd y Castell gyfoeth y meistri haearn a moethusrwydd eu bywydau.

Daeth ein siwrnai i'w therfyn wrth i ni fwynhau Te Prynhawn a baratowyd i ni gan Jamie Bevan yng nghanolfan Soar Merthyr ac yno hefyd cawsom gyfle i weld y theatr a'r neuadd ddawns. Braf oedd clywed gan Lis McClean, Pennaeth y Ganolfan, am yr holl weithgareddau a chyrsiau a gynhelir yno. Ymdeimlem â brwdfrydedd heintus Lis wrth iddi olrhain hanes creu'r Ganolfan. Ar ôl hanes y gorffennol synhwyrem yma fwrlwm y presennol a gobaith y dyfodol.

Mawr yw ein diolch i Frank Olding am ein haddysgu, ein goleuo a'n hatgoffa o gyfnod a thref nodedig yn hanes ein cenedl.

Diolch i Gill a Peter am eu gwaith yn trefnu'r daith ac am yr adroddiad uchod.

Llun tudalen 6 >

# O DAN YR WYNEB

**Martin Huws sy'n holi Seran Dolma, awdur *Y Nendyrau*, nofel i bobol ifanc am ddyfodol dychmygol ond posib. Hi enillodd gystadleuaeth Cyfeillion y Cyngor Llyfrau am syniad ar gyfer nofel i oedolion ifanc.**



**Beth yw eich gwaith?**
Dwi'n guradur profiadau ym Mhlas Brondanw, Llanfrothen. Ffordd ffansi o ddweud 'mod i'n trefnu digwyddiadau, gweithdai, cyrsiau, sgyrsiau ac ati.

**Pa waith arall ydych chi'n wneud neu wedi ei wneud?**
Fe fues i'n swyddog cadwraeth efo'r Cyngor Cefn Gwlad, ond roedd hynny flynyddoedd yn ôl. Wedi gweithio efo elusennau, un yn gwneud prosiectau cynaladwyedd lleol, ac un yn cefnogi pobl ym maes iechyd meddwl. Magu plant yn fwy diweddar.

**O ble rydych chi'n dod?**
Llanfrothen.


**Ble rydych chi'n byw?**
Penrhyndeudraeth.

**Wnaethoch chi fwynhau eich addysg?**
Rhannau ohoni, yn fawr iawn. Ond ddim i gyd, o bell ffordd.

**Pwy oedd a phwy yw'r dylanwadau mwya arnoch chi?**
Fy mam, fy modrybedd, fy ewythr, nain, taid, ffrindiau, ambell athro ... Rydw i wrthi'n darganfod gwaith fy hen nain, Amabel Williams-Ellis, oedd yn awdur ac yn olygydd nifer o gyfrolau. A Rhys, fy mhartner.

**Pa lyfrau ydych chi wedi eu hysgrifennu o'r blaen?**
Dim byd gorffenedig!

**O ble daeth y syniad cyn sgrifennu'r gyfrol?**
Ges i ddarlun yn fy mhen o *skyscraper* a'r lloriau gwaelod o dan ddŵr, a dinas suddedig o amgylch i bob cyfeiriad. Wedyn meddwl tybed a fyddai'n bosibl byw yn y lloriau uwch a sut fyddai modd cael dŵr yfed, bwyd, trydan, pethau felly?




**Beth oedd y mwynhad mwya a'r her fwya?**
Y mwynhad mwya oedd creu'r stori, datrys problemau, plethu syniadau i wneud rhywbeth sy'n gwneud synnwyr ac yn symud ymlaen. Yr her fwyaf oedd y lluniau (mae Seran yn arlunydd a'i lluniau ar ffurf comic yn y nofel), dydyn nhw ddim yn dod yn naturiol ac fe gymeron nhw oes.

**Beth sy bwysicach, cymeriad neu blot?**
Mae'r ddau yr un mor bwysig.

**Beth sy'n gwneud stori dda?**
Dyna ydw innau'n trio ffeindio allan!

**Sut mae sgrifennu i bobol ifanc yn wahanol?**
Dydi o ddim. Wnes i ddim penderfynu sgwennu i bobl ifanc. Penderfynu wnes i ddweud y stori yma, ac mae'n digwydd bod yn addas i bobl ifanc (a phobl eraill hefyd, gobeithio).

**Oes gennych chi rwtîn sgrifennu?**
*I wish*! Dwi'n sgwennu pan ga i gyfle, sydd ddim yn ddigon aml.

**Beth yw eich barn am stad y nofel Gymraeg?**
Mae 'na sîn lenyddol fywiog, a Manon Steffan Ros newydd ennill medal Carnegie. Mae'n amser cyffrous i'r nofel Gymraeg, ddywedwn i.

**Pwy yw eich hoff awdur? Pam?**
Does gen i ddim hoff awdur. Dwi'n darllen lot, ond bron byth yn darllen yr un llyfr ddwywaith. Rhai sydd wedi gwneud argraff arna i yw Tove Janssen, Per Petterson, Angharad Tomos, Manon Steffan Ros, Ursula Le Guin, Octavia Butler, Philip Pullman, Robin Wall-Kimmerer, Tyson Yunkaporta.

**Pa gyngor fyddech chi'n rhoi i awdur newydd?**
Wn i ddim, awdur newydd ydw i! Ffeindio rhywun sy'n fodlon darllen dy waith efallai? Mae'n anodd dal i fynd os ydi o jyst yn chdi a'r stori, a neb yn disgwyl unrhywbeth gen ti. Mae'n anodd gwybod os ydi hi werth chweil, neu os ydi hi i gyd yn rwtsh gwirion.

**Beth oedd y cyngor gorau gawsoch chi?**
Fues i'n ddigon lwcus i gael fy nerbyn ar gynllun mentora Llenyddiaeth Cymru, a chael Lleucu Roberts yn fentor. Hi roddodd yr hyder i mi orffen y llyfr. Hi a Llwyd Owen oedd yn arwain y cwrs mentora yn Tŷ Newydd. Y cyngor oedd dal ati, nad oedd hi ddim i gyd yn rwtsh gwirion.

**Beth sy' ar y gweill?**
Mae wastad gen i nifer o syniadau'n mudferwi.

**Disgrifiwch eich hoff bryd bwyd**
Rhyw fath o gyrri neu bryd Mecsicanaidd efallai. Rhywbeth efo llawer o tsilis a sbeisys, coriander a leims.

**Beth yw eich hoff weithgareddau amser hamdden?**
Cerdded, darllen, meddwi, mwydro. Ddyliwn i gael hobi mwy diddorol?

**Dolen Gwales:** [https://www.gwales.com/bibliographic/?isbn=9781913996703&tsid=4#top](https://www.gwales.com/bibliographic/?isbn=9781913996703&tsid=4#top)

***Y Nendyrau*, Gwasg y Bwthyn, £8**



Frank Olding yn tywys aelodau Clwb y Dwrlyn ym Merthyr Tudful (tudalen 5)

# Ysgol Gynradd Gymraeg Tonyrefail

**Gwobr Menter Ysgolion y Dreftadaeth Gymreig**

Llongyfarchiadau i blant a staff Cam Cynnydd 2 a 3 am ennill Gwobr Goffa Trefor Rees ac Eric Griffiths a roddwyd gan Cymdeithas Hanes Llantrisant a'r Cylch yng Nghystadleuaeth Menter Ysgolion y Dreftadaeth Gymreig y ddiweddar. Bu cynrychiolwyr o'r ysgol yn y seremoni wobrwyo yn yr Amgueddfa Forwrol yn Abertawe i dderbyn gwobr am eu gwaith ar y thema 'Ar Stepen ein Drws'. Gwahoddwyd aelodau o Gymdeithas Hanes Llantrisant a'r Cylch i ddod i'r ysgol i ddysgu mwy am y gwaith.




**Prosiect Bylbiau'r Gwanwyn**

Llongyfarchiadau eto eleni i ddisgyblion Blwyddyn 6 am dderbyn clod arbennig am eu gwaith ar y prosiect – 'Bylbiau'r Gwanwyn' gyda Amgueddfa Genedlaethol Cymru ag Edina Trust. Mae'r plant wedi bod wrthi yn ddiwyd yn cofnodi data'r tymheredd a'r glawiad yn ddyddiol yn ogystal a nodi tyfiant y bylbiau.



**Ffarwelio â Blwyddyn 6**

Trist iawn oedd gorfod ffarwelio gyda digyblion Blwyddyn 6 ar ddiwedd y tymor. Roeddynt wedi cael wythnos brysur iawn gan gynnwys perfformio eu sioe 'Aduniad 2063' yn eu gwasanaeth i rieni, parti ffarwelio a chyfle i fynd i fowlio deg i'r Rhondda Bowl. Rydym yn dymuno pob llwyddiant iddynt i'r dyfodol wrth iddynt ddechrau eu taith ym Mlwyddyn 7 yn Ysgol Llanhari ym mis Medi.



Blwyddyn 6 yn Bowlio Deg

**Mabolgampau**

Llwyddwyd i gynnal 3 sesiwn o fabolgampau er ein bod wedi gorfod gohirio mabolgampau Cam Cynnydd 3 chwech o weithiau oherwydd y tywydd gwlyb! Roedd y plant a'u rhieni wedi cael blas ar y cystadlu. Llongyfarchiadau i'r buddugwyr.



Cil Elai - Enillwyr Mabolgampau Cam Cynnydd 3

**Hufen Iâ**

Mae'n draddodiad bellach i'r fan hufen iâ ddod i ymweld â'r ysgol ar ddiwedd tymor yr haf. Roedd yr holl blant a'r staff wrth eu boddau ym mwynhau eu hufen iâ yn haul y bore.



Y Dosbarth Derbyn yn bwyta'u hufen ia blasus!

**Tripiau**

Fe aeth dosbarthiadau Blwyddyn 1,2,3 a 4 ar drip i Sain Ffagan fel rhan o'u gwaith thema. Talwyd sylw arbennig i'r tai ar stryd Rhyd-y-Car ac i weithdy'r gôf – wnaeth ysbrydoli sawl un i ystyried dilyn gyrfa fel gofaint yn y dyfodol.



Bl3 yn mwynhau yn y glaw yn Sain Ffagan

# O'r Senedd gyda Heledd Fychan AS

## Dechrau

I nifer o bobl, mae'r gwyliau haf yn gyfle i dreulio amser gyda'r teulu a chreu atgofion trwy fynd ar dripiau a chymeryd gwyliau. Ond i nifer o bobl eraill, gall fod yn gyfnod hynod o heriol, wrth geisio jyglo gwaith a gofal plant yn ogystal â dod o hyd i arian ar gyfer gweithgareddau i ddiddanu plant ag arian ychwanegol ar gyfer bwyd.

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn darparu cymorth i deuluoedd sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn ystod y gwyliau. Yn anffodus, cadarnhawyd ychydig cyn dechrau gwyliau'r haf na fyddai hyn yn digwydd eleni gan adael tua 1065 o deuluoedd ym Mhontypridd yn unig yn cael trafferth fforddio bwyd dros y cyfnod gwyliau o chwe wythnos. Yn hytrach na gadael eu plant heb fwyd, mae nifer o rieni yn mynd heb fwyd, sy'n golygu eu bod yn peryglu eu hiechyd eu hunain.

Ni chafodd banciau bwyd lleol unrhyw rybudd bod y cynllun yn dod i ben, ond maent wedi ymateb yn gyflym ac yn gweithio gyda phartneriaid i sicrhau bod cymorth ar gael. Felly os ydych chi'n cael trafferth, cysylltwch â'ch banc bwyd lleol neu fy swyddfa, a byddwn yn eich rhoi mewn cysylltiad gyda rhywun all helpu. Gwn y gall fod yn anodd gofyn am gymorth, ond peidiwch â dioddef ar eich pen eich hun na mynd heb fwyd. Gallai unrhyw un ohonom ganfod ein hunain yn yr un sefyllfa, ac ni fydd neb yn eich barnu am ofyn am help.

Os ydych mewn sefyllfa fwy ffodus ac yn gallu rhoi rhodd i'ch banc bwyd lleol, gwn y byddant yn cael eu croesawu. Mae yna nifer o lefydd lle gallwn adael rhoddion yn yr ardal, ond os nad ydych wedi rhoi o'r blaen ac angen gwybodaeth, mae croeso i chi hefyd gysylltu â mi.

Cyn i'r Senedd gau am yr haf, heriais Llywodraeth Cymru ar y penderfyniad hwn a'u hannog i ailystyried. Gofynnais iddynt hefyd weithio gyda banciau bwyd lleol i sicrhau bod digon o fwyd ar gael i bawb sydd ei angen yr haf hwn. Yn anffodus, mae'n ymddangos nad oes unrhyw gynllun wedi'i roi ar waith – rhywbeth y byddaf yn gofyn rhagor o gwestiynau amdano pan fydd y Senedd yn dychwelyd ym mis Medi, fel bod gwersi'n cael eu dysgu cyn gwyliau ysgol yn y dyfodol.

I gysylltu, e-bostiwch
Heledd.Fychan@Senedd.Cymru
neu ffoniwch 01443 853214

# Ysgol Gynradd Gymraeg Castellau

**Ymweliad Bl. 4 a 5 i Langrannog**






**Trip Bl. 3 a 6 i Ddŵr Cymru**





**Trip olaf Bl.6 i Bae Langland**



**Pob lwc i Miss Widgery, Miss Bird a Miss Davies wrth iddynt ddechrau eu gyrfa fel athrawon.**








**Blwyddyn 6 wedi bod yn paratoi i fynd i Garth Olwg**






**Bl.6 wedi cael sesiwn Bocsio**




**Chwaraeon RhCT wedi trefnu diwrnod Tenn**





**Bl. 4 a 5 wedi bod yn perfformio yn y Gyngerdd Opera**



**Trip 4 a 5 i Lyn Cosmeston**







# CREIGIAU

*Gohebydd Lleol:*
*Nia Williams*
*colin.williams@talktalk.net*

**Llwyddiant anhygoel Daniel - a Morus! Llongyfarchiadau mawr!**
Cynhaliwyd Cwpan Dawns y Byd ym Mhortiwgal eleni a diolch i anogaeth Bro Taf fe gymerodd Daniel a Morus ran yn y gystadleuaeth dawns traddodiadol a gwerin!




Daeth Daniel yn gyntaf yn y gystadleuaeth unigol a Daniel a Morus yn drydydd yn y ddeuawd.



Profiad od iawn oedd bod yn rhan o gystadleuaeth mor fawr lle roedd ysgolion dawns ledled y byd yn dawnsio jazz, acrobatics, tap, dawnsio i thema neu gerddoriaeth boblogaidd. Roedd cystadlu o 8yb nes 10 y nos am wythnos.

Sioc enfawr oedd clywed anthem Cymru yn cael ei bloeddio pan enillodd Daniel a ni yn unig yn y gynulleidfa yn sefyll i ganu! Yn ogystal â medal roedd rhaid iddo berfformio eto yn y gala o ddawns ar y nos Sadwrn ola.

Cawsom wyliau hyfryd yno! Roedd yn bendant werth mynd er i Morus golli wythnos o ysgol! TGJ

**Gerddi Agored Creigiau**
Cafwyd ymwelwyr lu ar ddiwrnod Gerddi Agored Creigiau eleni - nôl ym mis Mehefin. Tair gardd oedd yn estyn gwahoddiad eleni - ac mae deryn bach yn dweud wrthyf bod swm sylweddol o bres wedi ei godi ar gyfer elusennau ymchwil meddygol. Llongyfarchiadau mawr i'r garddwyr!





Gardd Waunwyllt

**Merched y Wawr - Cyfarfod clo!**
Pa mor lwcus oedden ni i orffen ein tymor am eleni yn Waunwyllt! Cartref a gerddi hyfryd John a Richard - yma'n y Creigiau! Daeth criw da ynghyd - wedi deall bod Olwen, Gill a Rhiannon wedi paratoi cacs! Ac am gacs! Diolch Ferched - ron nhw'n fendigedig! Cyflwynodd John ni i'r ardd/gerddi ar eu newydd wedd! Mae'n llecyn delfrydol! Pob twll a chornel wedi'u saernio i ddwyn tawelwch meddwl a boddhad i'r ymwelydd. Tywynnodd yr haul - profwyd cwmniaeth gynnes. Diolch i bawb ddaeth ynghyd b'nawn Mercher, 12fed o Orffennaf i greu p'nawn llwyddiannus a dymunol! Lluniau i ddilyn! Byddwn yn ail-gychwyn ym mis Medi - felly cadwch lygad ar eich negeseuon e-bost!

**Pob lwc, Lisa!**
Mae Lisa Evans wedi bod yn gweithio yn y swyddfa ym Mhlasmawr ers iddi adael ei swydd fel arweinydd Cylch Meithrin Creigiau rhyw 15 o flynyddoedd yn ôl. Ond mae'n gadael i weithio fel rheolwr swyddfa Tenovus.

Bydd yn golled enfawr i rieni Creigiau yn enwedig - roedd yn handi iawn cael cyswllt cyfarwydd yn yr ysgol ac ar ben arall y ffôn os oedd cwestiwn neu broblem.

Pob lwc, Lisa - ond byddwn yn dal i dy weld yn Crotesi Creigiau! TGJ

**Gwellhad llwyr a buan . . .**
. . . i chwi'r bobol beionig sy' wedi derbyn llawdriniaeth yn ddiweddar - sy'n eich rhyddhau o boen ac yn adfer eich ystwythder! Mae Dr Don Thomas - a Trish - wedi derbyn cluniau newydd eleni ac yn gwneud camau breision! Mae Jane Lewis hefyd wedi cael yr un llawdriniaeth ac yn gwella'n dda! Anfonwn ein cofion atoch!

**Cofio?**
Tybed odych chi'n cofio ble oeddech chi, Sadwrn y chweched o Fai, eleni? Ches i'm gwahoddiad - felly dyna lle ron i'n nghlwm wrth y teledu yn ffoli ar y ffasiwn, yn gwirioni ar geffylau hardd, ac yn gwerthfawrogi'r gerddoriaeth! A wyddoch chi be'? Ro'dd yna ferch fach dalentog iawn o'r Creigiau - sir Benfro gynt - yn rhan o'r gerddorfa arbennig yna ar y dydd! Llongyfarchiadau mawr, Maralyn Shewring ar gael dy ddewis i fod yn rhan o'r gerddorfa arbennig yna! Treuliodd Maralyn a'u chyd-gerddorion wythnos gyfan yn paratoi ar gyfer y dathliad mawr! Falle cawn argraffiadau Maralyn a 'chydig o luniau gyda hyn!

**Graddedigion!**
Llongyfarchiadau mawr, Raddedigion eleni! Dim enwau hyd yma - ond cewch yr hanes i gyd yn y rhifyn nesa! Pob lwc wrth i chi gymryd y camau nesa yn eich astudiaethau/gyrfaoedd!

***'Yr wyf i yn datganu taw hon yw fy Ewyllys olaf a dirymaf unrhyw Ewyllys flaenorol a wnaed gennyf'***

**Ewyllysiau Cymraeg gan Ruth Ceri Jones LL.B. (Hons)**
Os oes diddordeb gyda chi mewn cael Ewyllys yn yr iaith Gymraeg cysylltwch trwy ebost ar rcerijones@gmail.com

( Aelod o Gymdeithas Ysgrifennwyr Ewyllysiau)

# Colofn Blasus a Iachus

## Eluned Davies-Scott

### *Datguddiadau diddorol!*

Mae Delia Smith a Marcus Wareing yn adnabyddus i lawer ohonom. Mae Delia yn cael ei hadnabod fel y gogyddes ddi-lol a ddaeth yn adnabyddus am ei chyngor call ar wella prif brydau. Gyda thri thŷ bwyta a seren Michelin mae’r cogydd Marcus Wareing yn feirniad rheolaidd ar y rhaglen deledu ‘Master Chef, the Proffessionals’.









Daeth y ddau yn amlwg yn y papurau newydd yn ddiweddar trwy gyfaddef bod ganddynt hoffter am fwydydd na fyddem yn disgwyl iddynt eu mwynhau.

Dechreuodd hoffter Delia Smith o frechdan jam wedi’i ffrio gydag ymweliad â ‘Eric’s Fish & Chips’ yn Holt. Yn dilyn sawl ymweliad arall â'r bwyty, gofynnodd Delia Smith i'r perchennog a allai gynnwys fersiwn o'r frechdan ar fwydlen ei bwyty yng nghlwb pêl-droed Norwich City. Nawr fe wneir brechdan yno wedi ei baratoi trwy daenu dwy dafell o fara gwyn gyda jam mefus Tiptree, cyn ei ffrio ac yna ei thaenu gyda siwgr mân, gan gostio £5! Mae’r fwydlen yn dweud ei fod “efallai’n swnio’n annhebygol ond mae’n rhaid ei flasu i’w gredu”.

Yn ôl cogydd-berchennog y siop pysgod a sglodion, Eric Snaith, fe gafodd y syniad gwreiddiol ar gyfer y frechdan drwy feddwl am sgowtiaid yn cael brechdanau wedi eu coginio dros dân ei gwersyll. Arweiniodd yr honiad a wnaed gan Eric mai ef a ddyfeisiodd y frechdan hon i nifer o lythyrau ymddangos ym mhapur newydd y Guardian o bob rhan o'r wlad gan gynnwys Caerffili, Manceinion a Glasgow yn dadlau hyn.

Mae’n amlwg bod y brechdanau jam wedi’u ffrio, sy’n cael eu hadnabod i rai fel ‘toesenni dyn tlawd’ a ‘ffrithwyr jam’ wedi bod o gwmpas llawer hirach. Roedd llythyrau’n cyfeirio’n annwyl at famau’n eu gweini fel rhan o brydau bwyd pan oedd angen gorfod bod yn ddyfeisgar wrth gynhyrchu bwydydd rhad ar adegau o brinder arian a bwyd, yn rhan o fwydlen cinio ysgol breswyl ac wedi’i gwneud o rysáit a basiwyd i lawr gan neiniau. Tybed a oes gan unrhyw un ohonoch brofiadau tebyg?

A beth am ddatguddiad Marcus? Honnodd yn ddiweddar mai un o'i hoff fwydydd yw'r pizza ‘American Hot’ o Pizza Express. Mae wedi bod yn prynu'r un pizza am yr 20 mlynedd diwethaf ac wrth ei fodd â'r llenwad Romana gydag ychydig bach o tsili ychwanegol. Mae’n cyfaddef ei bod yn well ganddo pizza’r cwmni hwn nag unrhyw un arall achos *“pan fydda i’n mynd yma dwi’n gwybod beth rydw i’n ei gael, faint o amser y bydd yn ei gymryd, mae’r plant wrth eu bodd ac mae’n rhoi diwrnod i ffwrdd o goginio i mi…. bob tro dwi'n mynd mae wedi coginio'r un peth”.*

Ni fyddai’r naill na’r llall o’r bwydydd hyn yn cael eu hystyried yn ddewisiadau iachus gan eu bod yn cynnwys llawer o garbohydradau wedi’u mireinio (siwgr a blawd gwyn) a brasterau dirlawn.

Mae Marcus Wareing wedi cael cryn feirniadaeth am ei gyfaddefiad o hoffter o pizza parod ond bydd y rhan fwyaf ohonom yn sylweddoli nad yw’r bwyd hwn yn mynd i gyfrannu’n fawr at ei ddiet (a gellir dweud yr un peth am frechdan jam wedi’i ffrio Delia hefyd). Fyddwn i ddim yn beirniadu unrhyw un am fwyta pizza o ansawdd da unwaith mewn tro, ac un o’r atgofion melysaf sydd gen i yw bwyta crwst torth wen ffres, wedi’i phobi’n lleol, gyda menyn a jam cartref pan oeddwn i’n blentyn.

Yn anffodus, mae poblogaeth Prydain gyfan yn parhau i ddioddef o effeithiau hirdymor o fwyta diet gwael. Mae dwy ran o dair o oedolion dros eu pwysau, ac mae 27% yn byw gyda gordewdra. Mae effeithiau diet gwael wedi'u dosbarthu'n anghyfartal, gydag unigolion o'r ardaloedd economaidd-gymdeithasol isaf â dwywaith yr achosion o ordewdra, o gymharu â'r lleiaf difreintiedig (36% o gymharu ag 20%). Mae bwyta ffrwythau a llysiau hefyd yn dilyn graddiant cymdeithasol, gydag oedolion a phlant yn y degradd incwm isaf yn bwyta, ar gyfartaledd, 42% yn llai o ffrwythau a llysiau na'r hyn a argymhellir.

Bydd osgoi gormod o galorïau a bwyta mwy o ffrwythau a llysiau, ffibr a physgod olewog a llai o siwgr, halen a braster dirlawn yn helpu pawb i leihau eu risg o broblemau iechyd hirdymor. Mae pwysau gormodol yn costio tua £74 biliwn i’r DU bob blwyddyn mewn costau GIG uniongyrchol, cynhyrchiant gweithlu coll a disgwyliad oes is. Mae’n un o’r prif ffactorau yn y bwlch 20 mlynedd mewn disgwyliad oes iach rhwng aelodau cyfoethocaf a thlotaf cymdeithas.

Mae'r ateb yn gymhleth ac yn dibynnu ar lu o strategaethau gan gynnwys ymrwymiad hirdymor gan y llywodraeth, y diwydiant bwyd, yr archfarchnadoedd ac addysg bwyd ar bob cam o fywyd. Mae'n werth darllen yr erthygl gan newyddiadurwr ac awdur bwyd Bee Wilson https://www.theguardian.com/food/2021/nov/30/break-junk-food-cycle-britain-national-food-strategy.



Rwyf bob amser wedi credu ym mhwysigrwydd cael diet amrywiol a, lle bynnag y bo’n bosibl, gwneud prydau o gynnyrch tymhorol a chynhwysion sylfaenol; dyma’r cyngor a roddir dro ar ôl tro gan y ffynonellau mwyaf dibynadwy fel Sefydliad Maeth Prydain (BNF) a maethegwyr hyfforddedig. Mae yna lu o resymau pam na ddilynir y cyngor hwn ac nid af ar y trywydd hwn y tro yma (bydd hynny'n dod mewn erthyglau yn y dyfodol!)

Yn y DU, roedd maint y farchnad y diwydiant pizza parod wedi’u cludo yn £3.5bn yn 2022, a rhagwelwyd twf o 6.4% yn 2023. Yn 2021 roedd gwariant ar pizza wedi’i oeri o siopau dros £638 miliwn, sydd hefyd yn cynyddu’n raddol flwyddyn ar ôl blwyddyn. Mae'r rhan fwyaf o pizzas sy'n cael eu prynu mewn siop neu fwytai yn uchel mewn braster dirlawn, a gallant fod yn hallt hefyd. Caws a thopin cigog (salami, pepperoni, ham, cig moch neu gig eidion sbeislyd) yw'r prif dramgwyddwyr o ran ychwanegu braster dirlawn a halen. Mae pizzas fegan ar gael yn gynyddol ond gall caws fegan fod yn seiliedig ar olew cnau coco, felly gallant gynnwys cymaint o fraster dirlawn â'r fersiwn gwreiddiol.

Trwy wneud rhai eich hun gallwch reoli pa gynhwysion i’w defnyddio, a gall fod yn iachach, yn enwedig os ydych yn gwneud sylfaen denau sy’n defnyddio meintiau cyfartal o flawd cryf gwyn a gwenith cyflawn. Ar gyfer rysáit cyflym, gallwch wneud gwaelod sgon, un gan ddefnyddio blawd codi ac iogwrt plaen neu ddefnyddio bara pitta gwenith cyflawn, wraps tortilla neu baguette. Os oes plant yn y tŷ mae'n debyg y byddan nhw'n mwynhau gwneud a thylino toes wedi'i seilio ar furum.

Paratowch saws o domatos tun, passata a/neu biwrî tomato (gall sawsiau parod fod yn hallt). Mae'n well bod yn gynnil â'r saws a pheidio rhoi gormod o gynhwysion ychwanegol ar ben y saws, er mwyn osgoi gorlwytho'r gwaelod a'i wneud yn soeglyd, a hefyd ychwanegu at y calorïau! Blaswch y tomatos gyda pherlysiau sych neu ffres fel persli, basil, oregano a rhosmari.

Defnyddiwch gaws Mozzarella, mae'n ffynhonnell probiotegau, gan gynnwys Lactobacillus casei a Lactobacillus fermentum; mae Feta, caws braster is, neu Ricotta yn ddewisiadau da eraill. Defnyddiwch lysiau lliwgar yn enwedig pupurau coch, melyn ac oren maethlon (wedi'u rhewi neu'n ffres) ac osgoi cig.

Parhad tudalen 11>

# LLANTRISANT PONTYCLUN MEISGYN

**Gohebydd y Mis: Gwilym Huws**

**Llwyddiant Timau Ieuenctid Rygbi-cyffwrdd Cymru**

Llongyfarchiadau i dimau ieuenctid rygbi-cyffwrdd Cymru a fu'n cystadlu mewn twrnament rhyngwladol yn ystod y mis. Mae'r timau'n cynnwys sawl un o ardal Llantrisant, a chafwyd cryn lwyddiant. Enillodd y tîm cymysg dan ddeunaw oed eu cystadleuaeth, gyda buddugoliaeth gyffrous yn y rownd derfynol yn erbyn Lloegr. Daeth y tîm cymysg dan bymtheg oed yn drydydd ar ôl cyrraedd y rowndiau terfynol, a churo Iwerddon yn y gêm am y trydydd safle. Roedd safon y gystadleuaeth yn uchel, a llawer o ddiolch i hyfforddwyr Cymru sy'n cynnwys dau o Lantrisant – sef Matthew Enoch a Rhydian Ayres. Cafodd y gystadleuaeth, Cwpan Ieuenctid yr Iwerydd, ei chynnal yn Nottingham dros dridiau, gyda thimau yno o wledydd gan gynnwys yr Unol Daleithiau, De Affrica, Ffrainc, Gwlad Belg, Ynysoedd y Cayman a Tsieina. Mae modd gwylio rhai o'r gemau ar wefan y gystadleuaeth.



*Tîm Cymysg dan 15 oed Cymru ar ôl derbyn eu medalau*

**Merched y Wawr Tonysguboriau**

Cawsom amser bendigedig yng ngerddi Sŵn y Coed ddydd Sadwrn y 29ain o Orffennaf. Roedd Mair ac Owen Hopkins wedi agor eu gardd er mwyn codi arian at elusen Macmillan. Roedd yr ardd yn werth ei gweld gyda llysiau, ffrwythau, blodau a llwyni ac wrth gwrs y coed hynafol yn y cefndir. Roedd hi mor dawel a llonydd yno a mwynhaodd yr aelodau yn fawr iawn. Cafwyd paned a theisen, er bod tipyn o bendroni gan fod cymaint o ddewis o deisennau yno. Diolch yn fawr iawn am y croeso.



*Aelodau Merched y Wawr wedi ffeindio cornel fach i gael sgwrs.*

**Hanes Dwy Gofeb**

Ar ddechrau'r haf eleni, dadorchuddiwyd cofeb ym mhentref Llangrannog i gydnabod cyfraniad dewr ac arloesol Sarah Jane Rees, Cranogwen (1839–1916) i fywyd Cymru mewn meysydd megis barddoniaeth eisteddfodol, newyddiaduraeth, morwriaeth ac addysg. Ar ben hynny enillodd boblogrwydd iddi ei hun fel darlithydd cyhoeddus ysbrydoledig, pregethwr grymus, ac fel trefnydd ac arweinydd ymgyrchoedd o blaid dirwest. Dyma oedd y trydydd cerflun, mewn cyfres o bump, i'w gomisiynu gan *Monumental Welsh Women,* i anrhydeddu rhai o ferched nodedig Cymru. Mae'r cerflun o waith Sebastien Boyesen ym mhentref Llangrannog yn gampwaith teilwng i glodfori cyfraniad un a wnaeth gyfraniad mor fawr i'w chenedl.



Trwy gyd-ddigwyddiad, cafodd person nodedig arall ym mywyd cyhoeddus Cymru yn ail hanner y 19eg ganrif, sef Gwilym Williams (1839–1906), ei eni yn yr un flwyddyn â Cranogwen. Ond er mai yn ardal Aberdâr y gwelodd ef olau dydd am y tro cyntaf, fel y Barnwr Gwilym Williams, Meisgyn, yr adwaenid ef wedi iddo etifeddu yr ystâd deuluol ym Meisgyn ar farwolaeth ei dad, David Williams (Alaw Goch) yn 1863, sef yr union flwyddyn y cafodd ei dderbyn yn fargyfreithiwr. Daeth i amlygrwydd Cymru gyfan yn 1872 pan gafodd ei benodi gan yr Ysgrifennydd Cartref fel Ynad Cyflogedig Mân Droseddau Pontypridd a'r Rhondda, yn dilyn dadl allweddol yn Nhŷ'r Cyffredin o blaid penodi barnwyr dwyieithog yng Nghymru. Yn ddiweddarach fe'i dyrchafwyd yn Farnwr ar Lysoedd Barn Sirol Morgannwg – swydd a ddaliodd hyd ei farwolaeth. Fel ei dad o'i flaen roedd yn Gymro diwylliedig, ond hefyd yn daer o blaid ennill statws i'r iaith – nid yn unig wrth weinyddu'r gyfraith, ond ym mhob agwedd o fywyd cyhoeddus, gan gynnwys y gyfundrefn addysg a llywodraeth leol. Ar ben hynny, roedd yn gefnogwr selog gydol ei oes i'r Eisteddfod Genedlaethol ac eisteddfodau llai.



Fel yn hanes Cranogwen fe ddadorchuddiwyd cofeb bres drawiadol, wedi'i chynllunio gan William Goscombe John, i anrhydeddu cyfraniad arbennig y Barnwr Gwilym Williams i fywyd Cymru. Yn addas iawn, mae'r gofeb hon wedi'i gosod o flaen y Llysoedd Barn yn y Ganolfan Ddinesig ym Mharc Cathays, Caerdydd. Ond dyma lle mae'r hyn sy'n gyffredin rhwng hanes y ddwy gofeb yn dod i ben. Yn achos y gofeb i Cranogwen, bu'n rhaid aros am dros gan mlynedd wedi ei marwolaeth cyn dadorchuddio'r gofeb iddi, tra mai cwta pedair blynedd yn unig aeth heibio cyn dadorchuddio'r gofeb i Gwilym Williams. Gellid cynnig sawl esboniad digon dilys i geisio cyfiawnhau'r gagendor cronolegol rhwng dyddiadau dadorchuddio'r cofebau hyn i ddau ffigwr amlwg ym mywyd cyhoeddus Cymru oedd yn cyfoesi. Mwy diddorol, efallai, fyddai ceisio deall pam fod enwogrwydd Cranogwen wedi goroesi cyhyd, hyd yn oed cyn bod sôn am godi'r gofeb, tra bod amlygrwydd Gwilym Williams yng nghof y genedl wedi pylu hyd ddifancoll.

Ond tybed a yw'r rhod ar fin troi? Mewn darlith a draddodwyd yn 2019 yn dwyn y teitl 'Yr hen dwrneiod llengar', crybwyllodd yr Athro R. Gwynedd Parry, Prifysgol Abertawe, ac awdur *Y Gyfraith yn ein Llên*, fod ymdrechion cenhedlaeth o farnwyr a chyfreithwyr diwylliedig a fu'n eiriolwyr dros y Gymraeg mewn llysoedd barn ac ym mywyd y genedl yn ystod y 19eg ganrif wedi mynd yn angof. Tybiaf mai'r amlycaf ohonynt i gyd oedd y Barnwr Gwilym Williams, Meisgyn – ond bydd raid i ni aros i glywed barn arbenigol Gwynedd Parry am hynny pan fydd yn traddodi darlith i Gylch Cadwgan ar y testun 'Yn Goron o Wladgarwr: Y Barnwr Gwilym Williams, Meisgyn', a hynny yng Nghlwb Rygbi Pentyrch nos Iau 21 Mawrth 2024.

## Colofn Blasus a Iachus
**(Parhad)**



Gallwch hefyd arbrofi gyda gwahanol ddulliau o goginio pizzas; mae ryseitiau ar gael sy'n defnyddio peiriannau ffrio aer, cerrig pizza, padelli ffrio haearn a gradellau ac efallai fod rhai ohonoch â phopty pizza yn yr ardd. Fodd bynnag, ni fyddwn yn cynghori'r dull ffrio dwfn a awgrymir gan rai gwefannau.

Sut bynnag y byddwch chi'n paratoi ac yn coginio'ch pizza, gwnewch yn un elfen o'ch pryd a'i fwyta gyda salad i gynyddu eich 5 y dydd a chofiwch faint o ddognau! Mwyhewch yr arbrofi.



# Bethlehem, Gwaelod-y-garth

**Trefn yr Oedfaon (am 10:30 a.m. oni nodir yn wahanol):**

**Mis Medi 2023:**
3 Medi – Oedfa Gymun dan ofal Delwyn Sion
10 Medi – Oedfa dan ofal Emlyn Davies
17 Medi – Oedfa Ardal Aelodau Gogledd Caerdydd
24 Medi - Oedfa dan ofal y Parchedig Robin Samuel

---oooOOOooo---

Gadawyd pethau yn rhifyn mis Gorffennaf o'r Tafod gyda'r awgrym yma, a wnaed wrth i Weinidog ifanc, newydd, gyrraedd Bethlehem, Gwaelod-y-garth yn 1974, i gychwyn ar ei ofalaeth gyntaf:-

*"Y tu ol i'r tŷ y mae aceri meithion o goed o bob math, ac os tân glo fydd yn gwresogi eich aelwyd, awgrymaf i chwi brynu llaw lif a'r dannedd yn llydan a miniog oherwydd wedi storm fe rydd y goedwig ei chymwynas…"*

Ac os ydych wedi dyfalu ers hynny a fu iddo dderbyn yr her, yna fe allaf eich sicrhau chi yn ddiymwad, fod y Parchedig Rhys Tudur nid yn unig wedi prynu "*llaw lif a'r dannedd yn llydan a miniog*", ond ei fod hefyd a llond sied o dŵls, a'i alluogai i ymgymryd a phob gwahanol fath o dasgau o gwmpas y Mans a'r Capel – mynnwch air ag Elin Tudur, ei weddw, os am wybod mwy!

A faint ohonoch sy'n cofio mai rhannu ei weinidogaeth rhwng dau gapel a wnai Rhys, gan iddo gael ei ordeinio, a'i sefydlu, yn Weinidog ar Eglwysi Annibynol Bethlehem, Gwaelod-y-garth (am 2:00 p.m.), a'i sefydlu yng Nghapel Heol Hafren (Severn Road), Caerdydd (am 7:00 p.m.), ar ddydd Iau yr 28ain o Fawrth 1974?

Ac nid oedd yn syndod i neb mai ei dad, y Parchedig Brifathro R Tudur Jones, oedd a gofal yr Ordeinio ym Methlehem, a'r sefydlu yn Heol Hafren.

Traddododd y cyn-weinidog, y Parchedig Gwilym Morris, bregeth ar "Y Weinidogaeth" fel rhan o'r oedfa sefydlu ym Methlehem.

Caeodd Heol Hafren ei drysau yn 1979, ond fe ychwanegwyd dau gapel arall, sef Sardis, Pontypridd, a'r Tabernacl, Ynysybwl at yr ofalaeth bryd hynny, a pharhaodd y trefniant yna tan i Rhys droi ei olygon tua'r Bala yn 1984.

Mewn erthygl ddadansoddiadol o'i eiddo yn rhifyn Ebrill 1984 o "Cwlwm Bro", sef cylchlythyr Cyngor Cymuned Pentyrch, dywed fel a ganlyn am Bethlehem:-

*"…Mewn cyfnod o dros 150 o flynyddoedd dim ond deg o weinidogion sydd wedi ei gwasanaethu a byr iawn oedd y cyfnodau rhyngddynt. 95 mlynedd yn ôl y cynhaliwyd y Gymanfa Ganu gyntaf. Bryd hynny un o nifer o eglwysi'r cylch oedd Bethlehem. Erbyn hyn un o ddwy ydyw. Yn 1851 roedd 131 o blant yn yr Ysgol Sul ac yr oedd hyfforddi plant yn cael lle amlwg gan yr Eglwys. Dros y blynyddoedd bu'r Eglwys, nid yn unig yn Ganolfan Gristnogol, ond hefyd yn Ganolfan i'r diwylliant Cymraeg yn yr ardal. Mae ei gorffennol wedi ei fritho gan eisteddfodau, dramau, cantatas, darlithoedd, corau ac amryw o weithgareddau eraill, yn dangos cyfoeth a lled y diwylliant Cymraeg.*

*Wrth edrych 'mlaen i'r dyfodol ni ellir anghofio'r gorffennol. Mae llawer o'r hyn sy'n cael ei wneud yn y presennol yn waith adeiladu ar sylfaen a osodwyd gan ein cyndeidiau… Ar un cyfnod 'roedd Bethlehem yn un o nifer fawr o eglwysi Cymraeg o bob enwad yn y cylch hwn, erbyn hyn y maent i gyd wedi dod i ben a Bethlehem wedi etifeddu eu "mantell". Y dyddiau hyn mae'r rhan fwyaf o drigolion yr ardal yn trafaelio allan ohoni i weithio, mae anghenion diwyllianol yn cael eu porthi gan gyfryngau soffisdiedig Caerdydd, mae'r bywyd cymdeithasol i'w gael yno hefyd. Yn sefyll yn erbyn y llif hwn y mae Bethlehem, yr hyn a welwn ni bellach yw pobl o'r tu allan yn dod i ymuno yn yr addoliad o faesdrefi Caerdydd yn ogystal a'r pentrefi amgylchynol i ni yma. Mae'n sefyllfa hollol wahanol i 150 o flynyddoedd yn ôl. Ond gyda'r newid hwn y mae galwadau newydd yn cael eu gwneud ar yr Eglwys ac y mae disgwyl iddi gyflawni gwaith gwahanol e.e. addysg grefyddol i oedolion, grwp i famau a'u plant, dysgu Cymraeg ac ymarfer yr iaith i blant ac oedolion, a dosbarth gwaith llaw. Mewn oes lle'n bygythir ni'n feunyddiol gan alanastra'r bom niwcliar mae gan yr Eglwys ei rhan yn y gwaith i geisio osgoi hynny ac y mae Bethlehem wedi gwneud safiad clir a di-amwys yn erbyn arfau niwcliar a thros heddwch. Drwy ei gwahanol gysylltiadau a chasgliadau ceisia'r Eglwys hefyd ymateb i'w chyfrifoldeb dros y cleifion, y tlodion a'r anghenus yn ein plith a thramor.*

*Cred rhai mai rhywbeth sy'n perthyn i'r gorffennol yw'r Eglwys. Ond ym mhob oes y mae plant Duw yn dymuno addoli a dod at eu gilydd i offrymu'r addoliad hwnnw Iddo. Maent yn dymuno cymuno, bedyddio'r plant a chlywed Gair Duw yn cael ei bregethu. Maent yn dymuno cael Gweinidog i'w harwain a'u goleuo, eu hyfforddi a'u dysgu ac i fugeilio ochr ysbrydoli i fywyd yr Eglwys. Nid adeilad yn unig yw Bethlehem ond cymdeithas fyw yng Nghrist… Mae'n bodoli i wasanaethu'r Cymry Cymraeg yn benodol ac i wasanaethu'r gymdogaeth i gyd yn gyffredinol. Dyna oedd bwriad y teidiau yn 1832 ac y mae'r Eglwys yn dal yn ffyddlon i'r un weledigaeth…*

*Bu 1984 ar y gorwel ers nifer o flynyddoedd a llawer yn ofni beth a ddeuai*



Y Parch Rhys Tudur

*yn ei sgil. Ond ym Methlehem mae'r ofn wedi cilio a gobaith newydd yn y dyfodol wrth i'r Eglwys weld bendith Duw arni a llwyddiant yn ei gwaith. Os Duw a'i myn, gallwn edrych ymlaen i wasanaethu'r gymdeithas am 150 o flynyddoedd eto, a mwy."*

Mewn erthygl gan y Parchedig Ifor Rees, a gyhoeddwyd (ni wn ym mha gylchgrawn) yn nechrau'r nawdegau, gwelir ategu maint y dasg a wynebodd Rhys, a mesur ei lwyddiant, tra'n trafod ysgrif ddeifiol, ar ddau bentref cyfagos, o waith yr Athro W J Gruffydd.

Galwodd yr Athro'r pentrefi yn bentre'r Bryn a phentre'r Pant.

"*Yn y Pant 'roedd yr olaf o'r capeli Cymraeg newydd droi yn Saesneg ei hiaith, ond ym mhentre'r Bryn, ar draws afon Tâf, roedd y Gymraeg yn dal ei thir "cystal ag unrhyw blwyf cyffredin ym Môn neu Geredigion".*

*Roedd hwyl fawr ar oedfaon a chyfarfodydd llenyddol y capel, a pherfformid yno ddramau Cymraeg safonol, a gyfansoddid gan awdur lleol. Pentre'r Pant, wrth gwrs oedd Ffynnon Taf a phentre'r Bryn oedd Gwaelod-y-garth.*"

Medd Ifor Rees - "*Ddiwedd y pumdegau pan ymaelodais ym Methlehem… roedd y Gymraeg ar drai yn y pentref, a mawr fu llafur y gweinidog (Y Parchedig Gwilym Morris) a Mr John Charles Davies, ac eraill o'r ffyddloniaid wrth ddysgu'r plant drwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd talcen caled iawn gyda nhw. Ond llwyddwyd i gadw'r oedfaon a'r Gymanfa Ganu flynyddol yn drwyadl Gymraeg… Eto onibai am ddyfalbarhad John Charles, a'i debyg, ni fyddai'r un cnewyllyn o Gymriegrwydd ar gael yno pan aeth Mrs Gruffydd John Williams ac eraill i frwydro dros sefydlu Ysgol Gymraeg yn y pentref. Y symudiad hwnnw, mewn gwirionedd, a drawsnewidiodd fywyd capel Bethlehem – ynghyd a'r ffaith bod cynifer o deuluoedd ifainc Cymraeg eu hiaith wedi dod i fyw i'r cyffiniau. Y ffaith yw nad capel pentref yw Bethlehem mwyach, ond eglwys bro, a'i dalgylch yn eang iawn. Daw'r rhieni ifainc a'u plant o'r Creigiau, a Phentyrch, Radur, Llandaf a'r Eglwys Newydd, Ffynnon Taf, Rhiwbeina a Thornhill.*

*Ysywaeth mynd yn llai o flwyddyn i flwyddyn y mae nifer y brodorion sy'n gallu mynychu'r oedfaon, a hynny oherwydd*

Parhad tudalen 13 >

## Bethlehem (Parhad)

*henaint a llesgedd – "prin rai, lle 'roedd gynnau gant". Ond y maent hwythau, yn fwy na neb, yn ymlawenhau bod holl weithgareddau Bethlehem yn para'n gyfan gwbl Gymraeg – a'r oedfa fore Sul yn gysurus lawn.*"

Yn ystod gweinidogaeth Rhys y gwelwyd cegin newydd yn cael ei chodi, a'r Festri yn cael ei moderneiddio, a dyma engraifft o'r brwdfrydedd heintus oedd ynglwm wrth yr ymgyrch i godi arian i dalu am y gwaith.




A Rhys a'r teulu oedd y olaf o fugeiliad Bethlehem i fyw yn y Mans!

Cafodd ei sefydlu fel Gweinidog ar Eglwys Annibynol y Bala ar Fehefin y 9fed 1984, ac unwaith yn rhagor ei dad oedd a gofal yr oedfa honno.

Yn "*Hanes yr Annibynwyr yn y Bala*" gan Carwyn Siddall, sy'n Weinidog bellach ar Ofalaeth Bro Llanuwchllyn a'r Cylch, adlewyrchwyd ymroddiad Rhys, a fynegodd mor eglur uchod, i'w waith yno hefyd:-

"*Bu Rhys Tudur yn Weinidog hynod o weithgar yn yr Ofalaeth, gan weithio'n ddiflino gyda'r plant a'r ieuenctid yn ogystal â gyda'r Oedolion gyda'r cyfarfodydd wythnosol megis y Seiat a'r Cyfarfod Gweddi, y gymdeithas a'r Seiat Fach yn fendith fawr. Wrth gwrs, dyma'r cyfnod y gwelwyd cychwyn agor siopau a chwaraeon ac ati ar y Sul, ond wynebodd Rhys Tudur her y cyfnod, gan geisio ffyrdd newydd o Weinidogaethu, yn arbennig ymhlith yr ieuenctid drwy gynnal dosbarth anffurfiol ar ei aelwyd i'r bobl ifanc ar nos Sul i drafod ffydd ac ati*."

Ysywaeth fe'i collwyd yn llawer rhy gynnar, yn dilyn afiechyd creulon, ym mis Tachwedd 1996 ac yntau ond yn 45 mlwydd oed. Roedd erbyn hynny wedi gadael y weinidogaeth ac wedi dychwelyd gyda'i deulu i fyw yng Nghaerdydd.

Gosodwyd yr englyn canlynol, o waith Jim Parc Nest, ar ei garreg fedd yn y Groeslon, ac mae'n adlewyrchiad teilwng o'i gyfnod fel Gweinidog Bethlehem:-

"*Rhoed popeth. Ei bregethu - a'i hiwmor*
*a'i rym wrth wynebu*
*ei Dachwedd a'r diwedd du*
*i Rhys, trwy rym yr Iesu*"

Dilynwyd y Parchedig Rhys Tudur gan y Parchedig Thomas James Davies – yr unigryw TJ – yn 1985 - ond stori arall yw honno!

# PONTYPRIDD

Colofnydd Dilys Davies

**Capel Sardis**
Aeth aelodau Capel Sardis allan am ginio i'r Caesar's ar Gorffennaf yr 8fed er mwyn dangos eu diolch i Lis Morgan Jones trysorydd y capel ac i Shân Thomas ysgrifennydd y capel am eu gwaith diflino yn ystod y blynyddoedd diwethaf cyn i'r capel gau ym mis Mehefin eleni. Cafwyd prynhawn hyfryd yn hel atgofion a chwerthin! Mae ein dyled yn fawr i Lis a Shân a dymunwn pob hapusrwydd iddynt yn y dyfodol.

**Merched y Wawr**
Bu'r gangen yn ymweld â'r Senedd yng Nghaedydd ar y13eg o Orffennaf yng nghwmni Heledd Fychan. Roedd pawb wedi mwynhau yn fawr iawn a hoffai'r gangen ddiolch i Heledd Fychan am roi o'i hamser prin i ni.



Cafodd y gangen lwyddiant yn yr adran Crefft yn y Sioe yn Llanelwedd diolch i ddwy o'r aelodau sef Myrna a Siân Ebbsworth - daeth Rhanbarth y De Ddwyrain yn ail drwy Gymru. Llongyfarchiadau gwresog i chi.


Y TYST
AWN I FETHLEM BAWB DAN GANU
TŶ CWRDD BETHLEHEM
150

Ac mae hanes y Dathlu wedi cyrraedd tudalen flaen rhifyn yr 20fed o Orffennaf 2023 o "Y Tyst"!



Gwaith Celf Y De Ddwyrain yn y Sioe Fawr

Bydd ein cangen yn ail gychwyn am 7:30 nos Iau Medi'r 7fed. Croeso cynnes i aelodau hen a newydd. Rydym yn cyfarfod yng Nghlwb y Bont yng nghanol tref Pontypridd.

**Clwb Llyfrau**
Mae ein Clwb Llyfrau yn ail ddechrau ar y 13eg o Fedi am 10:30yb - croeso mawr i aelodau newydd. Rydym yn cyfarfod yn y Llyfrgell newydd yn y dref.

**Codi arian i Eisteddfod Genedlaethol RhCT 2024 - ardal Pontypridd**
Cafwyd Cwis yng Nghlwb y Bont nos Iau 27ain o Orffennaf o dan ofal Aled Thomas. Bu'r Noson yn llwyddiant ysgubol. Daeth 17 o dîmau i'r noson a codwyd £335. Diolch o galon i Aled am baratoi cwis heriol a difyr.



Cwis i godi arian i'r Eisteddfod

Cynhelir taith gerdded o gwmpas Pontypridd dan arweiniad Wil Morus Jones ar Awst 22ain - gan obeithio codi swm sylweddol i'r Eisteddfod.

**Penblwydd arbennig**
Mae'n siwr bod nifer fawr ohonoch yn cofio Anna Jones a fu yn athrawes yn Ysgol Gynradd Gymraeg Gartholwg, athrawes fro a pennaeth Ysgol Gymraeg Abercynon cyn iddi symud yn ôl i'w bro enedigol fel pennaeth Ysgol Abersoch.

Dathlodd Anna ei phenblwydd yn 80 ym mis Gorffennaf ac rwy'n siwr yr hoffech chi sydd yn ei hadnabod ddymuno pob hapusrwydd iddi ac fe gaiff ddathliad gyda ei hen ffrindiau o Bontypridd ar ei hymweliad nesa â'r de.

# Ysgol Dolau

**Dathlu**
Bu Blwyddyn 5&6 yn dathlu diwedd blwyddyn gyda #DOLAUFEST2023; cerddoriaeth, bwyd, gemau, moctêls a ffrindiau!







**Seremoni Graddio Nursery a Meithrin 2023**



**Dawns Trychfilod**
Hwyl plant y Derbyn a Reception



**Gwersi Samba**
Mae Blwyddyn 5 a 6 wedi cael cyfres o wersi samba gyda Mr Rees ac yna perfformio o flaen eu rhieni. Perfformiadau gwych!



**Blwyddyn 3 a 4 wedi ymweld â Mountain View Ranch**



**Aeth Blwyddyn 1 a 2 i ymweld â Beach Academy ym Mhorthcawl.**



**Criced**
Aethom â dau dîm i Barc Gelligaled y Porth ar gyfer gŵyl griced ar ddiwrnod heulog braf. Chwaraeodd pob plentyn griced gwych.



**Pêl-droed**
Llongyfarchiadau enfawr i'n tîm pêl-droed merched. Pencampwyr am yr eildro eleni. Mae wedi bod yn bleser gwylio pob un o'n merched yn cymryd rhan, yn datblygu ac yn magu hyder.





# Ysgol Llantrisant

**Ymweliadau**
Tro'r disgyblion Derbyn oedd hi yn ddiweddar i ymweld â Sain Ffagan. Cafodd y plant lawer o hwyl yn cerdded o amgylch yr amgueddfa i weld yr holl adeiladau diddorol.





Aeth disgyblion Blwyddyn 6 i'r Bathdy Brenhinol i ddysgu am waith a hanes y Bathdy. Aeth y plant ar daith o gwmpas y Bathdy i weld sut mae'r arian yn cael ei wneud, a chafodd y plant gyfle i wneud eu darn arian eu hunain i fynd adref.





**Cywion Dosbarth 2**
Diolch yn fawr iawn i Mr John, un o'n rhieni, am ddod â chywion bach i ddangos i'r dosbarth Derbyn. Roedd y plant wrth eu boddau yn cael eu gweld a dysgu am sut i ofalu amdanynt.



**Sparklab**
Diolch i'r GRhA am ariannu gweithdy Gwyddoniaeth Sparklab i ymweld â'r ysgol. Cafodd pob dosbarth gyfle i fwynhau ymchwilio ac arbrofi e.e. trwy greu cylchred trydan i oleuo bwlb, dysgu am wahanol fathau o egni a saethu rocedi.





**Llangrannog**
Cafodd disgyblion Blwyddyn 5 a 6 gyfle i dreulio tri diwrnod yn Llangrannog yn ddiweddar. Cawson nhw lawer o hwyl wrth gymryd rhan mewn llu o weithgareddau cyffrous a chael cwrdd â phlant o wahanol rannau o Gymru. Diolch o galon i'r staff a aeth gyda'r plant am roi eu hamser a'u hegni i sicrhau tridiau o hwyl a chyffro.







**Boom Cymru**
Cafodd disgyblion Blwyddyn 6 gyfle i recordio rhaglen newydd sbon o'r enw Tekkers, un o raglenni Stwnsh Sadwrn, yn ddiweddar. Roedd angen i'r plant gymryd rhan mewn gwahanol gystadlaethau pêl-droed. Edrychwn ymlaen at gael gwylio'r rhaglen cyn bo hir!





**Y Frigâd Dân**
Diolch i'r Gwasanaeth Tân am ddod i'r ysgol i drafod rôl y frigâd dân,



## Colli Dean Powell

Roedd Dean Powell yn ymgorfforiad o fywyd a hanes tref Llantrisant a bydd ei golli yn ergyd fawr i'r dref ac i'w deulu.

Bu'n allweddol wrth ail-agor y Guildhall yn y dref a cyhoeddod nifer o lyfrau ar hanes yr ardal ac am y Dr William Price. Roedd hefyd yn aelod ac yn gyflwynydd cyngherddau i Gôr Meibion Treorci ac roedd yn llywydd Cantorion Richard Williams.

Yn ddiweddar bu'n cynnal sgyrsiau i gymdeithasau Cymraeg yng Nghlwb y Bont a Llantrisant.

Bu farw yn 51 oed wythnosau ar ôl priodi ei gymar Jonathan Wickett. Cydymdeimlwn a'i deulu a'i ffrindiau yn eu colled.



Dean Powell yn rhoi sgwrs yng Nghlwb y Bont yn ddiweddar.





pwysigrwydd cadw'n ddiogel a beth i'w wneud petai tân yn digwydd. Cafodd y plant hefyd gyfle i weld injan dân, saethu dŵr o'r biben a gwisgo helmed a chot ymladdwyr tân.

**Hwyl fawr**
Hoffem ddymuno pob hwyl a dymuniadau gorau i Miss Helen Thomas sydd yn ein gadael ni eleni. Mae Helen wedi bod yn athrawes yn ein hysgol am 14 mlynedd, ac mae hi yn mynd i ddilyn cwrs MA ym mhrifysgol Birmingham i hyfforddi i fod yn athrawes ar gyfer pobl fyddar. Dymunwn bob hwyl iddi wrth ddilyn trywydd newydd yn ei gyrfa.

**Llongyfarchiadau**
Llongyfarchiadau i Neve am gystadlu gyda'i grŵp dawns "Dance Crazy" yn Stoke yn ddiweddar ym mhencampwriaeth ddawns. Daeth hi'n gyntaf a bydd hi'n mynd ymlaen i Blackpool i gystadlu yn erbyn gwledydd eraill yn y bencampwriaeth Ewropeaidd.



# Menter Caerdydd

**Tymor newydd o weithgareddau**
Gyda'r gwyliau wedi dirwyn i ben, mae tymor newydd o weithgareddau ar ddechrau. Dyma i chi flas o rai o'r cyrsiau, sesiynau a chlybiau i ddod dros y misoedd nesaf.

**Gweithgareddau Awyr Agored**
Bydd criw **Cerdded a Chlonc** yn cwrdd ym Mharc y Rhath fore Mawrth, 5 Medi i grwydro a sgwrsio'n hamddenol. Yna, ar fore Sul, 10 Medi byddwn yn cynnal taith gerdded ola'r tymor gan ddechrau ym mharc Cefn Onn a cherdded i Graig Llys-faen.
Bydd sesiynau **Lonc a Chlonc** yn parhau yng nghwmni criw Mae Hi'n Rhedeg: Caerdydd. Dyma gyfle i ferched dros 18 oed gwrdd i redeg a chymdeithasu.

**Sgwrs y Mis (Zoom)**
Dr Lowri Cunnington Wynn o Brifysgol Aberystwyth fydd ein siaradwr gwadd, nos Iau, 21 Medi. Y pwnc dan sylw fydd effaith yr argyfwng hinsawdd ar bobl ifanc sy'n byw mewn cymunedau arfordirol yng ngogledd orllewin Cymru. Gyda lefel y môr yn codi a rhai ardaloedd mewn perygl o gael eu boddi, beth yw'r oblygiadau ar gyfer y genhedlaeth nesaf?

**Mewn Tiwn (Canolfan Beulah, Rhiwbeina)**
Bydd ein cyngherddau misol yn parhau tan ddiwedd y flwyddyn gyda'r sesiwn nesaf ar fore Llun, 25 Medi yng nghwmni Delwyn Siôn. Bydd paned ar gael o 11.15 ac mae croeso i bawb. Mae'r gyngerdd yn rhad ac am ddim.

**Cadw'n Heini**
Yn ogystal â Lonc a Chlonc, bydd Ffitrwydd gyda Ffrindiau'n parhau bob yn ail wythnos yng Ngerddi Soffia a'r dosbarth Tai Chi yn dychwelyd i Hyb Rhydypennau. Edrychwn ymlaen at gynnig dosbarthiadau pilates a ioga hefyd y tymor yma a chewch hyd i wybodaeth bellach ar ein gwefan.

**Hen Ffefrynnau**
Mae'r dosbarth Sbaeneg yn mynd o nerth i nerth a'r criw yn edrych ymlaen at ailymgynnull ym mis Medi. Mae croeso i aelodau newydd ond noder nad yw'r cwrs yn addas ar gyfer dechreuwyr. Bydd criw hwyliog y Gerddorfa Ukulele yn cwrdd yn wythnosol dan arweiniad Mei Gwynedd a'r dosbarthiadau Cynganeddu yn ailddechrau ar gyfer tymor newydd o farddoni.
Bydd y Bore Coffi Misol i ddysgwyr yn cwrdd eto fore Gwener ola'r mis ar Zoom mewn partneriaeth â Dysgu Cymraeg Caerdydd.

**Cwrs Hanes (Zoom)**
Eisiau gwybod mwy am Gymru'r Oesoedd Canol ac olrhain hanes rhai o enwau mawr y cyfnod? Yr Athro Huw Pryce fydd yn cynnal ein cwrs hanes nesaf, sy'n dechrau nos Lun, 2 Hydref ac yn rhedeg am 3 wythnos. Teitl y cwrs fydd, 'Ar drywydd y tywysogion: o Lywelyn Fawr i Owain Glyndŵr'. Ewch i'r wefan am fwy o fanylion.

**Sgiliau Cyfrifiadurol**
Eisiau mynd ati i hel eich achau gan ddefnyddio adnoddau ar-lein? Methu defnyddio to bach wrth deipio? Cael ofn wrth dalu dros y we? Os yw technoleg yn peri penbleth i chi, dewch i ddysgu sgiliau technolegol newydd yn Hyb Rhiwbeina. Bydd ein cwrs tair wythnos o hyd yn cynnwys gwybodaeth am sut i fynd ati i wneud ymchwil ar y we ac yn eich cyflwyno i wefannau all eich helpu i olrhain hanes eich teulu. Byddwch hefyd yn derbyn cyngor ar sut i gadw'n ddiogel wrth dalu ar-lein ac am gadw cyfrifon ariannol gan ddefnyddio taenlen arbennig. Gan ddefnyddio meddalwedd Microsoft Word, Excel a mwy, cewch fagu hyder a sgiliau er mwyn gallu goresgyn heriau'r byd technolegol.

**Clybiau Plant**
Wrth edrych ymlaen at fis Tachwedd ac ymweliad yr Ŵyl Gerdd Dant â Chaerdydd, byddwn yn cynnal Gweithdy Telyn i blant dros yr wythnosau nesaf. Digwyddiad cyffrous arall yw ein Gweithdy Coedwig ar 30 Medi ar gyfer plant ym mlynyddoedd 2 i 5. Dewch i chwarae a dysgu sgiliau newydd yn yr awyr agored yn Global Gardens. Cofiwch hefyd bydd ein Gweithdai Gwyddoniaeth poblogaidd hefyd yn dychwelyd yn nhymor yr hydref!
Bydd ein sesiynau ar gyfer plant bach a'u teuluoedd, gan gynnwys Amser Stori, hefyd yn ail-ddechrau ym mis Medi, mewn lleoliadau amrywiol o gwmpas Caerdydd a Bro Morgannwg.

**I ddod cyn bo hir!**
Cyrsiau newydd – Adweitheg a Gwnïo.
Bore Iau, 19 Hydref – Taith i'r Senedd (rhad ac am ddim).
Bore Iau, 9 Tachwedd – Taith i Orielau Amgueddfa Genedlaethol Cymru ac arddangosfa Artes Mundi (rhad ac am ddim).

**Gwefan: mentercaerdydd.cymru**
**Facebook: @m.caerdydd / @MIBroMorgannwg**
**https://www.instagram.com/mentercaerdydd/**
**E-bost: post@mentercaerdydd.cymru Ffôn: 029 2068 9888**



# Ysgol Evan James

**Tripiau Ysgol**
Mae disgyblion yr ysgol wedi cael amser gwych ar eu tripiau. Maent wedi bod i Bicnic y Tedis, Legoland, Fferm Ymddiriedolaeth Amelia a thraeth Porthcawl. Diweddglo arbennig i'r flwyddyn.









**Ffair Haf**
Diolch i Ffrindiau Evan James am drefnu ffair haf eleni. Roedd yn noson hynod o lwyddiannus gyda rhywbeth at ddant pawb. Codwyd llawer o arian ar y noson a hoffem ddiolch i bawb am ddod i gefnogi.



**Eisteddfod Ryngwladol Llangollen**
Aeth rhai o ddisgyblion o flwyddyn 5 a 6 i Eisteddfod Ryngwladol Llangollen am y tro cyntaf ym mis Gorffennaf. Roeddent yn rhan o gôr y Clwstwr ac fe ganodd pawb yn hyfryd. Profiad arbennig!



**Dathliad Undeb Rygbi Cymru**
Ar ddiwedd y tymor, gwahoddwyd blwyddyn 4, 5 a 6 i Barc Ynysangharad i lansiad cit rygbi newydd Cymru cyn Cwpan y Byd yn yr hydref. Roedd cyfle i weld y cit ac i gwrdd ag ambell i chwaraewr enwog. Edrychwn ymlaen at weld y garfan yn cystadlu.



**Hwyl am y tro**
Fe fydd Mrs Smith a Mrs Lloyd yn gadael yr ysgol am flwyddyn o Fedi 2023 i Orffennaf 2024 i weithio gyda'r awdurdod lleol. Pob lwc i chi ac fe welwn ni chi'n fuan. Edrychwn ymlaen at eich croesawu nôl atom.

**Hwyl fawr Blwyddyn 6**
Hoffem ddymuno pob dymuniad da i ddisgyblion Blwyddyn 6 wrth iddynt symud ymlaen i'r ysgol uwchradd. Roedd eu sioe diwedd blwyddyn yn ardderchog gyda digon o chwerthin ac ambell i ddeigryn! Enillwyr Cwpan Jessica eleni oedd Mari ac Emily-Mair. Llongyfarchiadau.





Sioe Blwyddyn 6

# GILFACH GOCH

*Gohebydd Lleol: Dawn Walters*

**Pencampwyr Y Deyrnas Unedig am yr ail flwyddyn yn olynol.**
Llongyfarchiadau mawr i Esmay Walters ac Eve Harris yng nghystadleuaeth 5 dawns Lladin dan 16 oed a gynhaliwyd yn Bournemouth 27 Gorffennaf. Mae'r ddwy yn 13 a 12 mlwydd oed ac wedi bod yn dawnsio gyda'u gilydd am flwyddyn nawr ac wedi creu hanes yn y byd dawns sef buddugoliaeth ym mhob cystadleuaeth yn cynnwys pencampwyr yr Eidal. Mae ganddynt dalent unigryw a chyfeillgarwch arbennig. Mae Esmay yn ddisgybl yn Ysgol Llanhari. Mae'r ddwy yn aelodau o'r Ysgol Dance Crazy yn Llanilltud Faerdref ac yn hynod o ddiolchgar am yr hyfforddiant gan Abbie Neeson, Jo Crane a Hannah Marshal.




Hefyd rhaid llongyfarch Verity Walters a Tegan Bailey is-bencampwyr y gystadleuaeth dawnsfa dan 12 oed yn ogystal â chyrraedd rownd derfynol y gystadleuaeth dawns Lladin a'r ddwy yn 9 a 10 mlwydd oed. Mae Verity yn mynychu YGG Tonyrefail.




**Cyngor Cymuned**
Mae'r cyngor wedi bod yn brysur yn gosod meinciau newydd yn y pentref. Mae un yn ardal y berllan gymunedol a dwy yn ardal y pwll hwyaden / rhaeadr sydd pen pella'r pentref. Fe fydd hysbysfwrdd yn cael ei osod yn yr ardal sy'n dangos yr holl fywyd gwyllt sydd i'w weld fel rhan o brosiect bioamrywiaeth y cyngor.



# Ysgol Garth Olwg Chwaraeon

**Llwyddiannau Chwaraeon**
Cafwyd tymor arbennig o dda yn cystadlu mewn nifer o gystadlaethau athletau i Garth Olwg.



Llongyfarchiadau enfawr i ferched blwyddyn 8 wnaeth berfformio yn anhygoel a dod yn bumed yng nghystadleuaeth y Plât. Am brofiad anhygoel!

Llongyfarchiadau i Seb Williams, Sophia Goulding, Ava John ac Eurion John wnaeth gystadlu yng nghystadleuaeth Athletau Cymru. Canlyniadau gwych!
Ava John - Disgen 5ed
Eurion John – Disgen 1af a Gwaywffon 4ydd
Seb Williams - Naid Trifflyg 5ed
Sophia Goulding - Naid Trifflyg 2il








Mae hi wedi bod yn hyfryd i weld merched blwyddyn 7 ac 8 yn chwarae pêl-droed a rygbi'r tymor yma. Llongyfarchiadau am ennill llawer o gemau!



Llongyfarchiadau i Lauren a Paige o flwyddyn 11 am ennill eu capiau dan 16 i dîm Ysgolion Cymru ar ôl buddugoliaeth o 4-2 yn erbyn Ysgolion Lloegr. Da iawn chi!



Da iawn i Aled Evans am ennill ei gap rygbi dros dîm Clybiau Bechgyn Cymru o dan 16 ac i Lewis Harris o dan 18. Dyma Aled yn derbyn ei gap gan Max Boyce!



Llongyfarchiadau i Mali Fflur Lane a ddaeth yn drydydd yng nghystadleuaeth gymnasteg Ynysoedd Prydain ym mis Mehefin.

Cafodd tîm 7 pob ochr bl 7 ddiwrnod llwyddiannus yn





Aberpennar gan ennill y gystadleuaeth ac ildio ond un cais yn unig! Hefyd llwyddodd tîm rygbi cynghrair Blwyddyn 7 i ennill cystadleuaeth Cymru! Da iawn fechgyn!

**Mabolgampau Garth Olwg**
Cafwyd diwrnod llwyddiannus iawn yn y Mabolgampau bl 7-10 wrth i Aran, Clydach a Dowlais frwydro i gyrraedd y brig! Dyma ganlyniadau'r diwrnod. Pencampwyr y Mabolgampau bl 7-10: Blwyddyn 7 Merched: Martha Tudor-Asveld. Bechgyn: Lloyd Chalk. Blwyddyn 8 Merched: Georgia Davies. Bechgyn: Liam Gulliford. Blwyddyn 9 Merched: Megan Phillips. Bechgyn: Sam May. Blwyddyn 10 Merched: Sophia Goulding. Bechgyn: Ioan Leyshon.

Pencampwyr y Mabolgampau cyfan: Miley Goss ac Iestyn Maidment

Llys buddugol: CLYDACH!












CALON Rhiwbeina

SIOE FFASIWN
Er budd
Eisteddfod Genedlaethol 2024

**Nos Iau 16 Tachwedd 7yh**
**Canolfan Garth Olwg**
**Tocynnau: £10.**
**Oddi wrth: Beti Treharne**
**neu Calon Rhiwbeina**



**Acapela, Pentyrch**
**Mared Williams** – 19 Rhagfyr 2023
Gwefan: acapela.co.uk







# Ysgol Creigiau



**Pob Lwc!**

Dymunwn y gorau i bob un o'n disgyblion Blwyddyn 6 yn eu hysgolion uwchradd ym mis Medi. Mae nhw i gyd wedi bod yn ddisgyblion gwych. Roedd eu Gwasanaethau Ffarwel, o flaen eu rhieni a'u teuluoedd, yn hollol wych. Pob lwc i bob un ohonoch!

Pan fyddwn yn dychwelyd i'r ysgol ym mis Medi fe fydd ambell i wyneb newydd ar y staff a rhai wynebau cyfarwydd wedi ein gadael. Hoffwn ddiolch i Miss Gwawr Hatcher a Mr Gareth Evans am bopeth maen nhw wedi'i wneud i ysbrydoli a chefnogi ein disgyblion yn yr ysgol. Pob lwc i'r ddau ohonoch yn eich swyddi newydd.

**Soiree Haf**

Nos Fercher, 19eg Gorffennaf, cynhaliwyd ein Soiree Haf ar iard yr ysgol. Roedd yn ddathliad gwych o dalentau creadigol ein disgyblion. Diolch i Gyfeillion yr Ysgol am werthu lluniaeth ysgafn yn ystod y noson. Codwyd £571.54 – gwych!



Twm, Osian ac Ioan yn ein Soiree Haf



Telynorion yn ein Soiree Haf

**Hyfforddiant Kerbcraft**

Cafodd disgyblion Dosbarth 2 a Class 2 hyfforddiant Kerbcraft yn ddiweddar. Strategaeth genedlaethol yw Kerbcraft a ariennir gan Lywodraeth Cymru sy'n dysgu plant ym Mlwyddyn 2 sut i fod yn gerddwyr mwy diogel drwy fynd â nhw ar ffyrdd a dangos iddynt sut i wneud y penderfyniadau cywir i gadw'n ddiogel. Dysgodd y disgyblion sut i groesi'r ffordd yn ddiogel.

**Coleg Cerdd a Drama Cymru**

Nos Lun, 17eg Gorffennaf, perfformiodd Côr yr Ysgol yng Ngholeg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru. Fe'i gwahoddwyd fel rhan o gyngerdd arddangos a drefnwyd gan Wasanaethau Cerdd Caerdydd a'r Fro (CAVMS). Canon nhw'n wych - am brofiad bythgofiadwy!

**Tafwyl**

Perfformiodd disgyblion Dosbarth 2 ar lwyfan Ysgolion y Tafwyl. Canodd pob un yn wych. Diolch i Miss Thomas a Mrs Tewkesbury am hyfforddi'r disgyblion ac i Mrs Davies am gyfeilio a diolch i'r holl rieni a theuluoedd am gefnogi.



**Parti Ffarwel Blwyddyn 6**

Diolch yn fawr i Gyfeillion yr Ysgol a rhieni disgyblion Blwyddyn 6 am drefnu Parti Ffarwel bythgofiadwy ar gyfer disgyblion Dosbarth 6 a Class 6. Roeddent i gyd wedi mwynhau'r noson yn fawr ac wedi gwneud atgofion bythgofiadwy gyda'u ffrindiau. Diolch yn fawr i'r holl staff am helpu dathlu eu noson arbennig.



Dosbarth 6 yn eu Hwdis!

**Perfformio I'r Gymuned**

Fore Iau, 13eg Gorffennaf, ymweldodd aelodau o'r gymuned leol â'r ysgol. Cawsant eu diddanu gan ddisgyblion Dosbarth 2 yn perfformio eu caneuon 'Tafwyl'. Roedden nhw'n rhyfeddu bod y disgyblion wedi canu am 25 munud ac wedi dysgu amrywiaeth eang o ganeuon. Diolch i aelodau Clwb y Dwrlyn, Merched y Wawr, Cantorion Creigiau, 'Creigiau Companions', y 'WI' a chynghorwyr cymunedol lleol am ddod i'r ysgol a mwynhau perfformiad ein disgyblion talentog.




Dosbarth 2 yn diddanu'r Gymuned Leol

**Diwrnod Dwlu Dysgu**

Diolch yn fawr i'n teuluoedd am ddod i'n Prynhawn Dwlu Dysgu i ddathlu gwaith anhygoel eu plant eleni. Roedd y disgyblion wedi mwynhau cael eu teuluoedd a'u ffrindiau'n ymweld â'u dosbarth!



Dosbarth 6 yn eu Parti Ffarwel!

# Ysgol Llanhari

**Gorffennaf 2023**

Bu mis Gorffennaf yn gyfnod hynod brysur yn Ysgol Llanhari gyda nifer fawr o weithgareddau ac ymweliadau adddysgol yn digwydd cyn diwedd y tymor. Bu'n flwyddyn arall hynod brysur a llwyddiannus yn hanes yr ysgol. Ar ôl yr holl waith caled yn eu gwersi, ymwelodd dosbarthiadau'r adran gynradd â fferm Colliers, Bae Caerdydd a Bae Langland a'r Mwmbwls ar eu teithiau diwedd tymor tra mai i Lanllyn aeth disgyblion blwyddyn 10 gyda'r Adran Gymraeg. Ar ddiwedd wythnos brysur o weithgareddau, mwynhaodd disgyblion blynyddoedd 7-10 y daith flynyddol i Heatherton yn Sir Benfro.











**Taith Gerdded Noddedig**

Un o uchafbwyntiau'r wythnos olaf yng Ngorffennaf oedd taith noddedig disgyblion blynyddoedd 8 a 9 a chriw mawr o athrawon o amgylch ein bro gan anelu at y meini cariad ar ôl cychwyn o Dre Tomos a dychwelyd nôl i Lanhari trwy Lanharan. Bu'n ddiwrnod gwych, yn gyfle i ddod i adnabod a gwerthfawrogi dalgylch Llanhari yn well a hefyd yn gyfle i godi nawdd tuag at yr Eisteddfod Genedlaethol yn Rhondda Cynon Taf yn 2024. Rydym wrth ein bodd ein bod wedi cael ein dewis i noddi'r Gadair a'r wobr ariannol yn yr Eisteddfod honno ac felly dyma'r daith noddedig gyntaf wrth inni geisio codi arian at yr achos. Bydd y disgyblion eraill yn cymryd rhan mewn teithiau noddedig tebyg ym mis Medi a da iawn i'r criw yma fu wrthi ym mis Gorffennaf!








**Ymwelwyr arbennig**

Hyfryd oedd croesawu dau gyn-ddisgybl nodedig i'r ysgol ar ddiwedd mis Mehefin. Roedd disgyblion Dosbarth Barcud a blwyddyn 7wrth eu bodd yn cwrdd ag Aled Sion Davies a Rhys Williams a chlywed am eu llwyddiannau ym maes athletau ar y llwyfan rhyngwladol. Diolch i Athletau Cymru am drefnu'r ymweliad.





**Enillwyr Gwobr Goffa Rhys Rubery 2023**

Llongyfarchiadau mawr i Lois a Ioan o Ddosbarth Barcud, cyd-enillwyr gwobr goffa Rhys Rubery eleni. Diolch yn fawr i deulu Rhys ac elusen RR81 am barhau i noddi'r wobr hon yn flynyddol. Pob hwyl i'r ddau ohonoch ym mlwyddyn 7 a pharhewch i ymroi i bob agwedd o fywyd yr ysgol!



**Cynrychioli Cymru**

Llongyfarchiadau mawr i Ifan Roberts ac Osian Ayres ar gael eu dewis i chwarae rygbi cyffwrdd i Gymru o dan 16 mewn cystadleuaeth ryngwladol yn Nottingham ar ddiwedd y tymor. Arbennig fechgyn!



# Ysgol Llanhari (Parhad)

**Diwrnod Pontio olaf eleni**

Hyfryd oedd croesawu disgyblion blwyddyn 6 y clwstwr i ddiwrnod pontio olaf y flwyddyn. Diolch i Mrs Cath Webb a'r Adran Saesneg am drefnu gŵyl ar y caeau i'r disgyblion. Edrychwn ymlaen yn fawr at weld pawb ym mlwyddyn 7!







**Dathlu presenoldeb ardderchog!**

Ymfalchiwn bod llawer iawn o ddisgyblion Llanhari â phresenoldeb da iawn a braf oedd llongyfarch rhai o enillwyr gwobrwyon presenoldeb eleni ar ddiwedd y tymor. Mwynhewch y talebau sinema!





**Llongyfarchiadau i'n prif swyddogion newydd!**

Llongyfarchiadau mawr i Cerys Hulse, Emily Amos a Honey-Snow Williams sydd wedi eu dewis yn brif swyddogion eleni a hefyd i Anton Thomas a fydd yn ddirprwy brif swyddog. Pob dymuniad da i'r pedwar ohonoch – mae blwyddyn brysur o'ch blaenau!



**Croeso i'r ysgol**

Hyfryd fu croesawu cynifer o rieni i'r ysgol ar ddiwedd y tymor i ddathlu gyda ni. Cafwyd dathliad hyfryd o ddiwedd cyfnod yn yr adran gynradd gyda Dosbarth Barcud a hyfryd oedd gwahodd rhieni blynyddoedd 2-4 i'r ysgol i fwynhau penllanw thema'r tymor trwy edrych ar berfformiadau ac ar waith. Gwahoddwyd rhieni blwyddyn 7 i'r Ffair Wyddoniaeth am y tro cyntaf a diolch i bawb a fynychodd. Rydyn ni mor falch bod modd gwahodd cymuned yr ysgol nôl trwy'r drysau unwaith eto!








**Llwyddiant Athletau**

Mae disgyblion yn adran uwchradd wedi bod yn llwyddiannus ym maes athletau'r tymor hwn a phenllanw'r llwyddiant oedd ennill cystadleuaeth tîm blwyddyn 9 yn nghystadleuaeth mabolgampau'r Urdd yn Lecwydd ar ddechrau'r mis. Da iawn chi!



**Taith i Guadelopue**

Yn sgîl llwyddiant Madame Reid o'r Adran Ieithoedd Rhyngwladol yn ennill grant gan Taith, Llywodraeth Cymru, bydd cyfle i ddisgyblion bl11 TGAU i ymweld â'n hysgol bartner yn Guadeloupe mis Chwefror nesaf. Mae'r bartneriaeth hon wedi mynd o nerth i nerth a dyma freuddwyd yn troi'n realiti nawr! Pob dymuniad da gyda'r cynllunio!



# Ysgol Garth Olwg

**Llwyddiant Eisteddfod yr Urdd**
Cafwyd wythnos lwyddiannus iawn yn Eisteddfod yr Urdd eleni yn Llanymddyfri. Yn y cystadlaethau llenyddol llwyddodd Nel Spanswick i ddod yn 1af yng nghystadleuaeth rhyddiaith i flwyddyn 1 a 2 a Beca George yn fuddugol gyda'r farddoniaeth ym mlwyddyn 5 a 6. Daeth Mali Williams hefyd yn 3ydd yn barddoni blwyddyn 12 a 13. Camp aruthrol! Daeth Lucy Thomas o flwyddyn Derbyn yn 3ydd yn y gystadleuaeth ffotograffiaeth.

Ar y llwyfan llwyddodd Sara Rees Roberts bl 10 i gipio'r wobr fuddugol yn y perfformiad theatrig o sioe gerdd a daeth y grŵp dawnsio creadigol hefyd yn 1af. Cafodd Beca George, bl 6 y wobr gyntaf yn y ddawns werin draddodiadol i flwyddyn 9 ac iau! Llongyfarchiadau ferched a da iawn i bawb am gystadlu'n frwd trwy'r wythnos.













**Taith i Ganolfan y Mileniwm**
Gwnaeth criw o flwyddyn 12 a 13 fynychu tridiau ym Mae Caerdydd i ymuno â gweithgareddau creadigol yng Nghanolfan y Mileniwm. Dros y tridiau gwnaeth y disgyblion gymryd rhan mewn gweithdai gwahanol gan gynnwys dylunio gwisgoedd a set, gweithdy golau a sain, gweithdy radio a gweithgareddau adeiladu tîm. Gwnaeth rhai o'n disgyblion dewr fynd lawr y 'cat walk' yng nghefn y llwyfan. Cafodd y disgyblion pas cefn llwyfan i weld sut mae'r gweithwyr yn rhoi'r set at ei gilydd, a hefyd cysylltu gyda'r gwahanol rolau sydd yn mynd i sefydlu sioe gynnyrch enfawr ar y llwyfan.



**Hyfforddi athrawon**
Aeth dosbarth Blwyddyn 12 Safon Uwch Cymraeg i Ysgol Blessed Carlo Acutis i gynnal hyfforddiant i'r staff ar ddefnyddio'r Gymraeg mewn ysgol cyfrwng Saesneg. Roedd yr athrawon yn frwdfrydig iawn am ddysgu'r Gymraeg

**Eisteddfod Llangollen**
Bu disgyblion blynyddoedd 5 a 6 y côr yn brysur yn ymarfer yn ystod mis Mehefin a Gorffennaf i berfformio fel Côr Ysgolion Cymraeg Pontypridd yn Eisteddfod Ryngwladol Llangollen. Aethon nhw ar y daith hir i Ogledd Cymru, cael canmoliaeth wych am eu canu, ac am fod o bosib y côr mwyaf erioed i ymddangos ar lwyfan yr Eisteddfod - 75 ohonyn nhw!



**Music for Youth**
Ar ôl ennill lle yng "Ngwyl Music for Youth" yn Birmingham, perfformiodd yr ensemble lleisiol ymysg corau o Gymru a Lloegr yn Neuadd y Dre yn Birmingham, gan dderbyn adborth arbennig am eu canu swynol a'u mynegiant o'r gerddoriaeth.



**Bonjour Boulogne**
Er mwyn dathlu blwyddyn lawn o ddysgu Ffrangeg, aeth 50 o ddisgyblion blwyddyn 7 allan i Boulogne er mwyn ymarfer yr iaith yr oeddent wedi'i dysgu. Gadawom am un ar ddeg o'r gloch ar nos Sadwrn o Nantgarw – her oedd ceisio cysgu ar y bws dros nos gyda chymaint o gyffro! Ar ôl oriau o deithio, gan gynnwys fferi ar draws y môr, cyrhaeddom barc thema Plopsaland.



Cawsom ddiwrnod i'r brenin yn Plopsaland. Roedd reidiau o bob maint gwahanol gan gynnwys *roller coasters* a reids dŵr. Roedd hyd yn oed yr athrawon wedi ymuno mewn â'r hwyl ac wedi mynd ar y *Ride to Happiness*. Yn dilyn diwrnod blinedig yn y parc thema, cawsom fwyd bendigedig nôl yn ein gwesty.

Dechreuodd yr ail ddiwrnod gyda brecwast traddodiadol Ffrengig o *croissants* a




*baguettes*. Yna, cawsom amser rhydd ar y traeth cyn ymweliad i acwaria Nausiaà – acwaria fwyaf yn Ffrainc. Gorffennon ni'r dydd gyda chystadlu brwd yn y bowlio deg. Roedd y daith yn werth chweil a hoffai Mr. Parry ddiolch i bawb am eu cydweithrediad.

**Rhedeg i Baris**
Tra bod blwyddyn 7 wedi mwynhau yng ngogledd Ffrainc, aeth cymysgedd o ddisgyblion o flynyddoedd 9, 10, 11 a 12 i Baris. Treuliom y dydd cyntaf yn teithio. Cawsom amser byr yn siopa cyn cyrraedd y gwesty ond roedd pawb yn barod am y gwely!



Ar yr ail ddiwrnod, aethom i ganol Paris. Aethom i dop y *Tour Montparnasse* cyn mynd am yr afon *Seine*. Hwyliom lawr yr afon gan weld nifer o brif atyniadau Paris a gwylio'r byd yn mynd heibio. Ar ôl hwylio, aethom at y Tŵr Eiffel er mwyn tynnu lluniau cyn mynd ati i fynd i'r *Arc de Triomphe*. Roedd y nifer o risiau oedd angen dringo yn ddychrynllyd, ond roedd y golygfeydd dros Baris yn fythgofiadwy.



Siopa oedd y bwriad wedyn gydag amser rhydd ar yr *Champs Élysées*, gyda nifer o ferched yn gwario eu hewros yn Sephora. Gyda'r nos, bwyton mewn bwyty Ffrengig yn ardal *Montmatre*.

Ar ein dydd olaf, cawsom ddiwrnod cyffrous yn Disneyland Paris. Treuliom y dydd yn mynd ar bob math o reidiau, gwylio sioeau a chyfarfod a chymeriadau enwog Disney megis Mickey Mouse. Yn anffodus daeth ein hamser i ben ac roedd rhaid gwneud y daith hir nôl i Gymru.

Unwaith eto, hoffai Mr. Parry ddiolch i bawb am yr hwyl a'r cydweithrediad.

**Taith Thorpe Park**
Fel y llynedd, cawsom daith wych i Thorpe Park i ddathlu blwyddyn o waith da. Taith

Parhad tudalen 23 >

## Ysgol Garth Olwg (Parhad)





wobrwyo oedd y daith felly roedd rhaid sicrhau ymddygiad da a phresenoldeb uchel er mwyn gallu dod ar y daith. Roedd pawb llawn cyffro wrth adael yr ysgol ar gyfer y daith lawr yr M4. Oherwydd damwain, cymrodd hirach i gyrraedd Thorpe Park nag oeddwn wedi disgwyl ond unwaith i ni gyrraedd roedd pawb yn barod i wneud y fwyaf o'r amser. Roedd pawb wedi mwynhau ar y reidiau o rai enfawr fel Stealth a Swarm i rai mwy ymlaciol fel y Rapids neu'r Tea Cups. Cyn hir roedd hi'n amser gadael ac roedd pawb wedi mwynhau KFC neu Burger King yn y gwasanaethau ar y ffordd nôl. Edrychwn ymlaen at y daith wobrwyo nesaf!

**Mandarin**

Ar ddiwedd y flwyddyn, hoffai'r ysgol gymryd y cyfle i ddiolch i'n hathrawon Mandarin eleni – Yongping Fu a Mengjiao Yang. Maent wedi cyfrannu'n enfawr i fywyd yr ysgol gan addysgu disgyblion o flynyddoedd 1 i 13. Mawr yw ein xie xie (diolch) iddynt am feithrin dealltwriaeth o ddiwylliant Tsieina a'r iaith Mandarin ymhlith ein disgyblion. Hoffwn ddymuno pob lwc i Yongping Fu wrth iddi hi ddychwelyd i Tsieina i barhau gyda'i hastudiaethau ac rydyn ni'n gobeithio croesawu Mengjiao Yang yn ôl atom ym mis Medi.



**Gwobr Dug Caeredin**

Llongyfarchiadau mawr i'r grŵp Efydd Gwobr Dug Caeredin am gwblhau eu halldaith yn llwyddiannus ym mis Mehefin. Dechreuo ac ar ôl deuddydd o gerdded cwblhawyd y daith yn Southerdown, tu 30km o gerdded i gyd! Dangoswyd sgiliau, agwedd a gwaith tîm arbennig gan bawb.



**Pontio'r Adran Wyddoniaeth**

Ar ddechrau'r diwrnod pontio aethom ni i gael gwybod ein dosbarthiadau dysgu a chofrestru. Ar ôl hynny aethom ni i'n dosbarthiadau



dysgu ar gyfer gwers Wyddoniaeth. Yn ystod y wers Wyddoniaeth roedd rhaid i ni greu hufen ia - am wers wych! Roedd hi'n waith caled i greu'r hufen ia, ond yn wir werth yr ymdrech. Diolch yn fawr i'r adran Wyddoniaeth am gynllunio gwers mor gyffrous.

**Race for Life Pretty Muddy 2023**

Ar y 15fed o Orffennaf, gwnaeth staff a disgyblion o'r Ysgol Hŷn redeg ym Mharc Bute er mwyn codi arian at Ymchwil Cancr a chefnogi nifer yn y gymuned ysgol sydd wedi cael eu heffeithio gan yr afiechyd. Roedd tîm o dros 30 yn bresennol, yn rholio, neidio a llithro yn y mwd gyda gwên â chefnogaeth frwdfrydig o'r ochrau gyda theulu a ffrindiau yna i gefnogi. Braf gweld y gymuned ar waith yn codi dros £2,500 hyd yn hyn at yr achos pwysig hwn a chyfle i weld yr Ysgol Hŷn ac athrawon yn mwynhau ac yn llawn egni ar ddiwedd tymor!






**Prosiect Cofebion**

Yn ystod y tymor hwn lansiwyd prosiect cofebion y Rhyfel Byd Cyntaf dan arweiniad Dr Gethin Matthews, Prifysgol Abertawe a'r Imperial War Museum yn adeilad Pierhead lawr ym Mae Caerdydd. Roedd yn gyfle i ddathlu gwaith y disgyblion ar ôl diwrnodau o baratoi ac roedd yn destun balchder i'r





adran Ddyniaethau. Wrth gydweithio gydag artist lleol, Siôn Tomos Owen o Dreorci i greu cofebion cyfoes mae'r disgyblion wedi creu darlun lliwgar sydd yn adlewyrchu'r hanes lleol gyda



chyfeiriadau at yr hen bont. Roedd y disgyblion wedi mwynhau'r cyfle i weld sut mae rhyfeloedd yn enwedig y Rhyfel Byd Cyntaf ac Ail Ryfel Byd wedi adlewyrchu ar gofebion lleol ym Mhentref Eglwys a Phontypridd dan arweiniad Dr Gethin Matthews o Brifysgol Abertawe. Defnyddiodd y disgyblion y cyfeiriadau yma fel sbardun i'r gwaith a braf yw gweld y cyfeiriadau yma yn y gofeb. Mae gwaith Garth Olwg, yn ogystal â 5 ysgol arall o Dde ddwyrain Cymru i weld yn y Pierhead nes diwedd Gorffennaf cyn symud i Barc Treftadaeth y Rhondda.

**Wythnos Amgylcheddol ac Eco Llwyddiannus**

**RAGS 2 RICHES** : Roedd cymuned Garth Olwg wedi casglu dillad ar gyfer 'Rags 2 Riches'. Pwrpas yr ymgyrch hon oedd ceisio lleihau'r nifer o ddillad sy'n mynd i safleoedd tirlenwi a rhoi cyfle i'r dillad cael eu hailddefnyddio. Casglwyd sawl bag o ddillad gan ddisgyblion a rhieni ac ar ôl i bopeth gael eu pwyso llwyddwyd i gasglu 200.40kg o ddillad, sef £100.30 tuag at ein Fforwm Eco. Bydd yr arian yma yn mynd nôl mewn i wella amgylchedd y campws.




**Cyfnewid Dillad**: Ffordd arall o leihau dillad sydd yn mynd i safleoedd tirlenwi yw cyfnewid dillad. Cafodd yr Ysgol Ganol gyfle i ddod â chrys-t i'r ysgol oedd dal mewn cyflwr da ond nad oedd y disgyblion bellach yn ei wisgo. Daeth disgyblion blynyddoedd 5 -8 i'r Siop Gyfnewid er mwyn dod o hyd i eitem newydd i wisgo! Roedd pawb wedi



Parhad tudalen 24 >

## Ysgol Garth Olwg (Parhad)

cael llawer o hwyl yn enwedig yn gweld pwy oedd yn mynd â dillad pwy!

**PLANNU BLODAU** : Roedd disgyblion yr Ysgol Isaf a Chanol wedi cael amser hyfryd yn plannu blodau. Gwnaeth disgyblion yr Ysgol Ganol ddysgu sut i droi potel blastig mewn i botiau hunan-ddyfrhau. Mae'r blodau hyn i'w gweld o amgylch y campws, ar silffoedd ystafelloedd dysgu ac mae nifer hefyd wedi mynd adref gyda disgyblion.



**Cyfnewid Tegan**: Cafodd disgyblion yr Ysgol Isaf y cyfle i gyfnewid tegan. Roedd nifer o'r disgyblion a gymerodd rhan yn y cyfnewid wrth eu boddau gyda'r tegan newydd. Roedd bwrlwm mawr wrth wneud a arbedodd nifer o eitemau yn cyrraedd y safleoedd tirlenwi.

**Casglu Sbwriel**: Un gweithgaredd poblogaidd gyda'r disgyblion oedd casglu sbwriel o amgylch y campws ac yn yr ardal leol. Casglodd disgyblion blwyddyn 5-8 nifer o fagiau o sbwriel. Roedd y tywydd bendant ar ein hochr ni wrth wneud y gweithgaredd hwn. Diolch yn fawr iawn i 'Cadwch Gymru'n Daclus' am roi'r cylchoedd sbwriel a'r casglwr sbwriel i ni fel rhan o'r prosiect eco ysgolion. Rwy'n siŵr bydd y disgyblion yn barod i'w defnyddio eto!





**Ysgrifennu Creadigol**
Llongyfarchiadau i Greta Hall Williams am ennill cystadleuaeth ysgrifennu creadigol a gafodd ei chynnal gan y rotari am ei hymson Cymraeg ar ffoaduriaid yr Wcráin. Da iawn ti!



**Gweithdy Cemeg ym Mhrifysgol Abertawe**
Cawsom y cyfle ar ddechrau mis Mehefin i fynychu gweithdy ymarferol ym Mhrifysgol Abertawe o dan ofal Simon Bott a myfyrwyr yr ysgol Gemeg. Roedd y gweithdy yn gyfle gwych i ni ymgymryd mewn sawl techneg dadansoddi a synthesis gwahanol fel synthesis dau gam a synthesis hylifol ar gyfer cynnyrch organig mewn labordai newydd sbon. Atgyfnerthodd y profiad yr hyn sy'n cael ei ddysgu yn yr ysgol ac mae wedi caniatáu i ni adolygu technegau cyn ein harholiad ymarferol blwyddyn nesaf. Diolch yn fawr i'r adran am y croeso cynnes eto eleni!





**Ysgolion Treftadaeth Gymreig**
Llongyfarchiadau i'r Ysgol Isaf sydd wedi ennill gwobr wedi'i noddi gan Sefydliad Moondance fel rhan o Fenter Ysgolion Treftadaeth Gymreig blwyddyn yma am y gwaith ar 'Ein Cynefin'. Roedd y prosiect yn canolbwyntio ar gynefin yr ysgol ym Mhentre'r Eglwys ac ar sut roedd yr ardal yn rhan o hanes ehangach Cymru a'r byd.

**Ysgol Deuddydd Prifysgol Aberystwyth**
Cawsom gyfle gwych i fynd i Aberystwyth ddiwedd y tymor i ysgol deuddydd yr Adran Gymraeg ym Mhrifysgol Aberystwyth. Roeddwn wedi mwynhau profiadau newydd o gael mynd lawr i'r môr a dysgu am iaith, llenyddiaeth a hanes Cymru gan ddarlithwyr y brifysgol.






**Fy mhrofiad yn Mallorca**
Yng nghanol mis Mai, es i, Ava, a Seren ar daith i Mallorca i ganolfan er mwyn dathlu'r Gymraeg fel iaith leiafrifol. Enillon ni gystadleuaeth er mwyn gwneud hyn. Ar ôl taith awyren eithaf garw, cyrhaeddon ni yn Palma lle'r oedd y tywydd yn boeth ac yn heulog. Aethon ni i'r traeth a chwrdd ag ychydig o bobl o wledydd gwahanol fel pobl o wlad y Basg a phobl o





Friesland. Nesaf, aethon ni ar fws am daith i'r hostel a chwrdd â phawb arall o'r holl wledydd gwahanol o amgylch Ewrop. Roedd yna bobl o'r Eidal, Hwngari, Ynysoedd y Balerig, Sweden ac Andorra. Ar unwaith, roedd pawb yn gyfeillgar iawn ac yn frwdfrydig iawn am eu hieithoedd lleiafrifol. Dros y deuddydd, gwnaethon ni amrywiaeth o weithdai yn y meysydd drama, chwaraeon a cherddoriaeth. Fy hoff atgof o'r daith oedd y disgo yn y nos ar yr ail ddydd. Roedd rhaid i bob gwlad ddewis caneuon i chwarae yn eu hiaith leiafrifol nhw yn y disgo. Roedd y disgo'n hwyl iawn oherwydd roedd hi'n gyfle i bawb dathlu eu diwylliannau nhw a hefyd dathlu a mwynhau diwylliannau a cherddoriaeth gwledydd eraill. Mwynheais i'r daith yn fawr iawn oherwydd roeddwn i'n gallu siarad yn y Gymraeg am bedwar diwrnod. Wrth ddysgu gwahanol bobl am y Gymraeg a pham mae'r iaith mor bwysig i fi'n bersonol, sylweddolais pa mor frwdfrydig ydw i am y Gymraeg. O ganlyniad i'r cyfle gwych i fynd i Mallorca, rwyf nawr yn siarad mwy o Gymraeg yn y tŷ ac yn gymdeithasol.

**Ymweld ag Auschwitz**
Ar yr wythfed ar hugain o Chwefror, derbyniais i a Tom y fraint o allu cynrychioli'r ysgol wrth deithio i Wlad Pwyl am ddiwrnod ingol gyda'r elusen Holocost Education Trust. Bwriad yr ymweliad oedd cofio am fywydau dioddefwyr yr Holocost. Roedd yn brofiad bythgofiadwy ac emosiynol, wrth i ni grwydro'r dref Oświęcim ac yna ymweld â'r gwersyll adnabyddus Auschwitz ll. Roedd ymweld â'r adeiladau a gweld maint y gwersylloedd yn brofiad dirdynnol ac yn brofiad nad anghofiwn wrth weld y rhestr ddiddiwedd o enwau'r dioddefwyr yn y llyfr 'Book of Names'. Dychmygwch - 4 miliwn o enwau yn gorchuddio'r tudalennau. Anodd oedd credu maint yr ail Wersyll Crynhoi Auschwitz-Birkenau, wrth i ni grwydro'r gwersyll a myfyrio, wrth gofio hanes y miliynau bu farw yn ddidrugaredd. Y profiad mwyaf trawiadol oedd gwrando ar y Rabbi yn darllen cerdd am yr holl bobl collodd eu bywydau yng ngwersylloedd, fel Auschwitz-Birkenau, ar draws Ewrop. I orffen ein taith fel llysgenhadon, cawsom ni'r cyfle bythgofiadwy i gwrdd ag un o oroeswyr yr Holocost, Mr Manfred Goldberg. Rhoddodd y profiad o wrando ar stori ei fywyd ac ar fywyd ei deulu ias i'r ddau ohonom a'n hatgoffa o bwysigrwydd y daith sef i barhau i gofio unigolion a ddioddefodd erchyllterau'r Holocost ac i ledaenu'r hanes i'r genhedlaeth iau.



Greta Hall Williams, Blwyddyn 12.